Arsyllfa **Wledig** Cymru
Wales **Rural** Observatory

# Gweithwyr Mudol o Ddwyrain a Chanol Ewrop yng Nghymru Wledig

Michael Woods and Suzie Watkin

Ebrill 2008

Adroddiad 20

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY
CARDIFF UNIVERSITY PRIFYSGOL CAERDYDD
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Cynnwys

.......................................................................................................................1
Cynnwys ....................................................................................................................1
PENNOD 1  CYFLWYNIAD......................................................................................2
1.1 Cyflwyniad ..............................................................................................................2
1.2 Dulliau Ymchwil .......................................................................................................3
1.3 Ardaloedd yr Astudiaethau Achos..............................................................................4
PENNOD 2: PROFFIL O WEITHWYR MUDOL YNG NGHYMRU WLEDIG..................7
2.1 Cyflwyniad ..............................................................................................................7
2.2 Nifer y Gweithwyr Mudol yng Nghymru Wledig .........................................................7
2.3 Dosbarthiad Daearyddol...........................................................................................10
2.4 Rhyw ac Oedran.......................................................................................................13
2.5  Cyflogaeth ..............................................................................................................16
2.6 Crynodeb................................................................................................................19
PENNOD 3: PATRYMAU MEWNFUDO......................................................................21
3.1 Cyflwyniad ..............................................................................................................21
3.2 Cyrraedd Cymru.......................................................................................................21
3.4 Cysylltiadau â Chymru...............................................................................................24
3.5 Cysylltiadau â'r Famwlad...........................................................................................25
3.6 Crynodeb................................................................................................................27
PENNOD 4: AMODAU A PHROFIADAU GWAITH A THAL........................................29
4.1 Cyflwyniad ..............................................................................................................29
4.2 Dod o Hyd i Waith.....................................................................................................29
4.3 Math o Waith ...........................................................................................................30
4.4 Amodau Gwaith .......................................................................................................32
PENNOD 5: YMDODDI I'R GYMUNED ......................................................................41
5.1 Cyflwyniad ..............................................................................................................41
5.2 Ymdoddi i'r Gymuned Leol .......................................................................................41
5.3 Rhwydweithiau Lleol.................................................................................................42
5.4 Canfyddiadau o'r Gymuned Leol...............................................................................44
5.5 Camwahaniaethu a Throsedd...................................................................................47
5.6 Defnydd o'r Gwasanaethau Lleol .............................................................................49
5.7 Crynodeb................................................................................................................51
PENNOD 6: CASGLIADAU..........................................................................................53
6.1 Cyflwyniad ..............................................................................................................53
6.2 Myfyrio ar Fyw yng Nghefn Gwlad Cymru.................................................................54
6.3 Gwahanol Brofiadau'r Mewnfudwyr...........................................................................57
6.4 Cymorth i Weithwyr Mudol........................................................................................60
CYFEIRIADAU ...........................................................................................................62
ATODIAD 1: CANFYDDIADAU GWEITHWYR MUDOL O FYW YNG NGHYMRU WLEDIG.......................................................................................................................63

# PENNOD 1 CYFLWYNIAD

## 1.1 Cyflwyniad

Wrth ehangu'r Undeb Ewropeaidd ym mis Mai 2004 trosglwyddwyd hawliau mudo a chyflogaeth i ddinasyddion wyth aelod-wladwriaeth newydd yng Nghanol a Dwyrain Ewrop – y Weriniaeth Tsiec, Estonia, Hwngari, Latfia, Lithiwania, Gwlad Pwyl, Slofacia a Slofenia (a elwir 'Gwledydd A8' gyda'i gilydd) Mae'n fwriad caniatáu i bob dinesydd yn y GE fod yn rhydd i weithio ym mhob un o'r gwledydd yn y pen draw. Fodd bynnag, nid yw rhyddid o'r fath ar hyn o bryd ar gael, gan y caniateir i aelod-wladwriaethau presennol gyfyngu mynediad dinasyddion y gwledydd A8 i'w marchnadoedd gwaith cenedlaethol. Dim ond tair gwladwriaeth a ganiataodd fynediad a oedd bron yn ddigyfyngiad a hawliau cyflogaeth i ddinasyddion y gwledydd A8 er iddynt ymuno yn 2004: Iwerddon, Sweden a'r Deyrnas Unedig. Mynnodd y DU fodd bynnag na fyddai gan weithwyr y gwledydd hyn hawl i fudd-daliadau diweithdra hyd nes iddynt weithio am 12 mis yn ddi-dor a byddai'n rhaid iddynt gofrestru ar y Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS).[1]

Rhwng mis Mai 2004 a mis Mawrth 2007 gwnaeth dros 630,000 o fewnfudwyr o wledydd A8 gais i'r WRS yn y DU, a bu 97% o'r ceisiadau yn llwyddiannus (Yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo, 2007). Nid yw'r nifer hon yn cynrychioli'r nifer o weithwyr mudol o Ganol a Dwyrain Ewrop a ddaeth i'r DU yn ei chrynswth, gan fod nifer o gategorïau wedi'u heithrio, yn enwedig gweithwyr hunangyflogedig, ac mae cryn nifer o weithwyr mudol heb gofrestru. Fodd bynnag, mae'n cynnig bras amcan inni o raddfa'r patrwm. Roedd bron tri chwarter o'r ceisiadau a wnaethpwyd i'r WRS

o Wlad Pwyl (71%), a Slofacia (9%) a Lithiwania (7%) oedd y rhai mwyaf wedyn (*ibid.*).

Yn wahanol i gymunedau o fewnfudwyr i Brydain yn y gorffennol, nid yw gweithwyr mudol o wledydd A8 ar ôl 2004 wedi eu crynhoi mewn dinasoedd 'derbyn', ond maent yn bur wasgaredig ar hyd a lled y wlad, ac mae oddeutu chwarter y gweithwyr mudol a gofrestrwyd ar y WRS yn byw mewn ardaloedd gwledig. Yn wir, er bod y nifer go iawn o weithwyr mudol mewn ardaloedd gwledig yn llai nag eiddo ardaloedd trefol maent yn tueddu i fod yn ganran uwch o gyfanswm y gweithlu. At hynny, mewn llawer achos daeth gweithwyr mudol A8 i fyw i gymunedau gwledig lle na fu fawr o fewnfudo - neu heb hanes o hynny o gwbl - o'r tu allan i'r DU. Mae'r ystyriaethau hyn wedi codi nifer o bynciau yn ymwneud â phatrwm, cyflwr ac effaith y gweithlu mudol o'r gwledydd A8 i'r ardaloedd gwledig.

Cymru a dderbyniodd y nifer leiaf o weithwyr mudol A8 o blith pob rhan o'r DU, a chymeradwywyd 19,060 o geisiadau'r WRS rhwng mis Mai 2004 a mis Mawrth 2007 (3% o'r cyfanswm yn y DU) (Yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo, 2007). Fel y trafodir yn fanwl ym Mhennod 2, gwasgerir gweithwyr mudol ledled ardaloedd gwledig a threfol Cymru, ond ceir ambell ardal â dwysedd uwch na'i gilydd. Er bod y nifer go iawn o weithwyr mudol A8 sy'n byw yma yn uwch mewn ardaloedd trefol - yn enwedig Caerdydd, Llanelli, Casnewydd a Wrecsam - mae'r gymhareb rhwng gweithwyr mudol a'r boblogaeth leol sydd ohoni yn uwch mewn nifer o gymunedau gwledig.

Mewn astudiaeth gwmpasu a gyhoeddwyd yn 2006, cynigiwyd dadansoddiad rhagarweiniol gennym ar y dystiolaeth ystadegol mewn perthynas â gweithwyr mudol o wledydd A8 yng nghefn gwlad Cymru ac amlinellwyd y pynciau allweddol yn ymwneud â chymathu ac effaith y gweithwyr mudol ar ardaloedd gwledig, fel y'u codwyd gan swyddogion llywodraeth leol (AWC, 2006). Prif gasgliadau'r Astudiaethau Gwmpasu oedd:

- Bod cryn amrywio daearyddol yn niferoedd y gweithwyr mudol sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru
- Bod ymateb yr awdurdodau i anghenion y mewnfudwyr yn amrywio'n fawr.
- Ymddengys fod awdurdodau gwledig yn tueddu i ymagweddu mewn un o dair ffordd: dywed rhai nad oes fawr o weithlu

[1] Ar y llaw arall, bu'r mynediad i'r farchnad waith yn y DU yn gyfyngedig i ddinasyddion Bwlgaria a Rwmania, a ddaeth yn aeloda o'r Undeb Ewropeaidd yn Ionawr 2007.

mudol yn eu hardal; dywed eraill eu bod yn ymwybodol o bresenoldeb gweithlu o dramor ond hyd yma maent heb weithredu; a dywed rhai eu bod yn ymwybodol o nifer gynyddol o fewnfudwyr economaidd o Ganol a Dwyrain Ewrop ac maent yn gweithredu i gwrdd â'u hanghenion.

- Disgwylir y bydd nifer y gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru yn cynyddu yn ystod y pum mlynedd nesaf, ond nid yw'n eglur i ba raddau y bydd yn cynyddu.

- Mae'n hanfodol gwneud rhagor o ymchwil i ganfod niferoedd, nodweddion a bwriadau'r sector hwn o'r boblogaeth, er mwyn cwrdd â'u hanghenion ac er mwyn eu cymathu â chymunedau yng nghefn gwlad Cymru.

Mae ein hymchwil ddiweddaraf, a geir yn yr adroddiad hwn, wedi datblygu'r dadansoddiad a gyflwynwyd gyntaf yn yr Astudiaeth Gwmpasu er mwyn creu dealltwriaeth fwy cynhwysfawr a datblygedig o batrymau a thueddiadau gweithlu mudol o'r gwledydd A8 i gefn gwlad Cymru; amodau byw a gweithio'r gweithwyr mudol A8 yng Nghymru wledig; a chymathu ac ymwneud gweithwyr mudol A8 mewn cymunedau gwledig yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'n fwriad gan yr adroddiad hwn bwyso a mesur effaith gymdeithasol ac economaidd gweithwyr mudol Cymru wledig, nac ychwaith gyfrannu i'r drafodaeth ar gyfraniad gweithwyr mudol i gymdeithas ac economi Cymru.[2]

Lluniwyd yr adroddiad gan Michael Woods a Suzie Watkin, gan dynnu ar ymchwil o dan arweiniad Catherine Walkley yn bennaf, a hithau a fu'n gyfrifol hefyd am gynnal y cyfweliadau ag asiantaethau a phobl gysylltiedig. Cynhaliwyd y cyfweliadau trwy arolwg holiadurol â gweithwyr mudol gan Eliza Bednarek a Magdalena Markham, a fu'n gyfrifol hefyd am gyfieithu'r atebion i'r holiaduron o Bwyleg i Saesneg. Cynhyrchwyd y mapiau gan Jonathan Radcliffe.

[2] Gweler, er enghraifft: 'Migrant workers 'push down wages'' Gwefan Newyddion BBC Wales, 22 Tachwedd 2007; 'Migrants a boost to Wales, not a worry', *Western Mail*, 11 Rhagfyr 2007.

## 1.2 Dulliau Ymchwil

Casglwyd y dystiolaeth a geir yn yr adroddiad hwn drwy ddefnyddio tri phrif ddull o gasglu data.

Yn gyntaf, cafwyd data ystadegol manwl am gofrestriadau ar y Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS) ac am gofrestriadau Yswiriant Gwladol i Dramorwyr yng Nghymru trwy geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae data'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr yn ymwneud yn benodol â gweithwyr mudol o'r gwledydd A8 ac fe'u cafwyd ar gyfer y cyfnod rhwng mis Mai 2004 a mis Medi 2006. Mae'r set ddata yn cynnwys dyddiad cofrestru, rhyw, oedran, cenedl, gwaith a sector diwydiant y swyddi, oriau gwaith a thâl yn ôl yr awr. Mae'r data ar gyfer cofrestriadau Yswiriant Gwladol i Dramorwyr yn cynnwys pob cofrestru am rif Yswiriant Gwladol gan ddinasyddion tu allan i'r DU ar gyfer pob un o flynyddoedd 2002-3, 2003-4, 2004-5 a 2005-6. Cynnwys y set ddata wybodaeth am ryw, oedran, a gwlad enedigol.

Fel y trafodir yn fanylach yn adran 2.1 ceir problemau a diffygion yn achos setiau data'r WRS a'r NNNI, yn ogystal ag anghysonderau rhwng y ddwy set ddata. Er hynny, y setiau data hyn sy'n cynnig yr hyn sy'n cyfateb orau i gyfrifiad o weithwyr mudol A8 sy'n byw yng nghefn gwlad Cymru.

Yn ail, cynhaliwyd cyfweliadau â 15 o gynrychiolwyr asiantaethau a sefydliadau sy'n cydweithio â gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru. Yr oedd y rhain yn cynnwys heddluoedd Dyfed-Powys a Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cenedlaethol, Cyngor ar Bopeth (CAB), Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (NFU), Cyngor yr Undebau Llafur (TUC), Unsain, Cytûn (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru) a Siawns Teg, yn ogystal ag awdurdodau lleol a phartneriaethau diogelwch cymunedol.

Yn drydydd, cynhaliwyd arolwg holiadurol o weithwyr mudol drwy gyfrwng astudiaeth achos mewn pedair ardal: Betws-y-coed a Llanrwst; Aberdaugleddau a Hwlffordd; Gogledd Sir Gaerfyrddin a Cheredigion; a'r Trallwng (gweler adran 1.3 isod am ragor o fanylion). Roedd yr holiadur yn cynnwys 115 o gwestiynau ar eu cefndir, rhesymau dros fudo a sut y mudwyd, math o waith ac amodau gwaith, tai, ymwneud â'r gymuned leol, canfyddiadau o Gymru a bwriadau at y dyfodol. Trwy gyfrwng Pwyleg gan siaradwyr Pwyleg yn bennaf y cynhaliwyd yr

arolwg a chyfieithwyd yr atebion i'r Saesneg i'w dadansoddi. Talwyd £10 yr un i'r atebwyr am gymryd rhan.

Holwyd cyfanswm o 100 o atebwyr rhwng mis Mai a mis Medi 2007, sef 25 ym mhob ardal yr astudiaethau achos. O'r cychwyn penderfynwyd peidio â recriwtio atebwyr trwy gyflogwyr neu ddarparwyr llety er mwyn sicrhau bod pob un yn cymryd rhan o'i wirfodd ac yn cynnig atebion am eu hamodau gwaith a byw yn ddilyffethair. I'r perwyl hwnnw, aethpwyd ati i ddefnyddio nifer o ddulliau i ddod o hyd i bobl addas i gymryd rhan. Gosodwyd hysbysebion a hysbyslenni mewn llefydd cyhoeddus a fynychwyd gan weithwyr mudol, gan gynnwys siopau, tafarnau a llyfrgelloedd, yn gofyn iddynt gymryd rhan. Er na chafwyd nifer fawr o bobl yn cymryd rhan yn sgil y cyhoeddusrwydd hwn, llwyddodd i hysbysu gweithwyr mudol yr ardal am yr arolwg. Y ffordd fwyaf llwyddiannus i greu'r cyswllt cyntaf ym mhob ardal oedd trwy i ymchwilwyr ymweld â'r ardaloedd a chyfarfod â darpar atebwyr mewn llefydd cyhoeddus fel caffes, tafarnau ac ar y stryd. Cyn gynted ag y crewyd y cyswllt cyntaf defnyddiwyd techneg caseg eira trwy rwydweithiau o gysylltiadau lleol i ddenu rhagor i gymryd rhan.

Oherwydd y dull recriwtio hwn a maint bychan y sampl ym mhob ardal yr astudiaeth achos dylid ystyried mai dangosol yn hytrach na chynrychioliadol yw natur sampl yr arolwg. O'i gymharu â data'r WRS, ceir gormod o gynrychiolaeth o ddynion a gweithwyr mudol rhwng 25 a 34 oed yn ein sampl, a thangynrychiolir pobl rhwng 18 a 24 a thros 45 oed. Gorgynrychiolir gweithwyr mudol o Wlad Pwyl yn y sampl yn ogystal (94% o'i gymharu â 79% yng nghofrestriadau'r WRS). Ni recriwtiwyd gweithwyr mudol o Estonia, Hwngaria, Latfia, Lithiwania na Slofenia, sy'n cyfrif am 11% o gofrestriadau'r WRS yng nghefn gwlad Cymru.

## 1.3 Ardaloedd yr Astudiaethau Achos

Cynhaliwyd yr arolygon holiadurol mewn pedair ardal o astudiaethau achos, a ddewiswyd fel crynodiadau nodedig o weithwyr mudol A8 yng nghefn gwlad Cymru ac er mwyn dangos bod gwahanol strwythurau economaidd lleol ar waith ac felly wahanol gyfleon gwaith i weithwyr mudol.

Mae ardal yr astudiaeth achos gyntaf yn canolbwyntio ar gymunedau cyfagos **Betws-y-coed a Llanrwst** yng Nghonwy. Ardal am y ffin â Pharc Cenedlaethol Eryri ydyw, ac mae Betws-y-coed yn gyrchfan poblogaidd i ymwelwyr. Dengys ymchwil gan Rwydwaith Cydraddoldeb Hiliol Gogledd Cymru i weithwyr mudol yng Nghonwy fod Betws-y-coed yn safle sylweddol sy'n cynnig gwaith i weithwyr mudol, yn bennaf mewn gwestai ac yn y diwydiant arlwyo (Turunen, 2005). Atodwyd Llanrwst i ardal yr astudiaeth oherwydd ei bod yn fwy o le â chyfleusterau i weithwyr mudol lleol, gan gynnwys llyfrgell â mynediad i'r we a siop bwydydd o Wlad Pwyl. Yng Nghyfrifiad 2001 roedd gan Fetws-y-Coed boblogaeth breswyl o 534 o bobl, ac nid oedd ond 1.7% ohonynt wedi eu geni y tu allan i'r DU, a chyfradd diweithdra o 4.1%. Roedd gan Lanrwst boblogaeth breswyl o 3,037 o bobl, ac 1.6% ohonynt wedi eu geni y tu allan i'r DU, a chyfradd diweithdra o 7.5%.

Canolbwynt yr ail ardal yw **Aberdaugleddau a Hwlffordd** yn Sir Benfro. Yn ôl dadansoddiad Heddlu Dyfed-Powys o ddata'r WRS ceir awgrym bod dros 100 o gofrestriadau'r WRS yn Hwlffordd a'r cylch hyd at fis Mehefin 2006, a 30 cofrestriad arall yn Aberdaugleddau (Heddlu Dyfed-Powys, 2006). Roedd rhai o'r cofrestriadau yn ymwneud â gwaith adeiladu ar y biblinell o Aberdaugleddau i Aberdaugleddau, a chyfleon gwaith eraill ym mhorthladd a storfeydd olew Aberdaugleddau, y sectorau gwasanaethu a gweithgynhyrchu yn y ddwy dref, a mentrau twristaidd yn yr ardal leol gyffiniol. Yng Nghyfrifiad 2001, roedd gan Hwlffordd boblogaeth breswyl o 10,808 o bobl, a 4.8% ohonynt wedi eu geni y tu allan i'r DU, a chyfradd diweithdra o 7.1%. Roedd gan Aberdaugleddau boblogaeth breswyl o 13,086 o bobl, a 2.2% ohonynt wedi eu geni y tu allan i'r DU, a chyfradd diweithdra o 9.8%.

Trydedd ardal yr astudiaeth achos yw'r **Trallwng** ym Mhowys. Yn ôl dadansoddiad Heddlu Dyfed-Powys o ddata'r WRS ceir awgrym bod dros 70 o gofrestriadau'r WRS yn ardal côd post y Trallwng hyd at fis Mehefin 2006 (Heddlu Dyfed-Powys, 2006), a chyfleon gwaith yn bennaf yn y sectorau gweithgynhyrchu a gwasanaethau yn y dref, ac amaethyddiaeth a'r diwydiant ymwelwyr yn y cylch. Yng Nghyfrifiad 2001, roedd gan y Trallwng boblogaeth breswyl o 6,269 o bobl, a 1.9% ohonynt wedi eu geni y tu allan i'r DU, a chyfradd diweithdra o 4.4%.

Canolbwynt ardal yr astudiaeth achos olaf oedd Llanybydder yn Sir Gaerfyrddin. A hithau gymuned fechan o 1,420 o bobl yn ôl Cyfrifiad 2001 (a 1.6% ohonynt a aned tu allan i'r DU), mae Llanybydder yn gartref i boblogaeth sylweddol o weithwyr mudol sy'n gysylltiedig â lladd-dy a ffatri prosesu cig Dunbia. Yn ôl dadansoddiad Heddlu Dyfed-Powys o ddata'r WRS ceir awgrym bod dros 95 o gofrestriadau'r WRS yn ardal côd post Llanybydder hyd at fis Mehefin 2006 (Heddlu Dyfed-Powys, 2006), ac awgryma tystiolaeth anecdotaidd fod y rhif hwn yn tangyfrif gwir faint y gymuned leol o weithwyr mudol. Yn ôl adroddiad Dunbia ei hunan mae 47% o'r gweithlu, sy'n cynnwys oddeutu 400 o bobl, yn Bwyliaid (sy'n cyfateb i ychydig lai na 200 o unigolion), a cheir 8% arall nad ydynt yn ddinasyddion y DU, gan gynnwys dinasyddion gwlad Tsiec, a hefyd ddinasyddion o Bortiwgal, Bosnia ac Irac (Cyngor Sir Caerfyrddin, 2007).

Fodd bynnag, cafwyd cryn drafferth creu cysylltiadau â gweithwyr mudol yn Llanybydder. O'i gymharu â'r ardaloedd astudiaeth eraill nid oedd gan y pentref ond ychydig o lefydd cyhoeddus lle y gellid dod o hyd i weithwyr mudol a chyfarfod â hwy. Roedd y rhai y crewyd cyswllt â hwy, naill ai yn Llanybydder neu yn yr Offeren Bwyleg fisol a gynhelid yn Eglwys Gatholig Llanbedr Pont Steffan, yn wyliadwrus dros ben ac yn gyndyn i gymryd rhan yn yr ymchwil. O'r herwydd, penderfynwyd ehangu'r ardal astudiaeth i gynnwys pob rhan o **Ogledd Sir Gaerfyrddin a Cheredigion**, a denwyd nifer yn y pen draw i gymryd rhan o wahanol ardaloedd yn y siroedd hyn gan gynnwys Aberystwyth, y Borth, Caerfyrddin a Llanbedr Pont Steffan.

# PENNOD 2: PROFFIL O WEITHWYR MUDOL YNG NGHYMRU WLEDIG

## 2.1 Cyflwyniad

Yn y bennod hon cyflwynir dadansoddiad manwl o'r data ystadegol sydd ar glawr ar broffil a dosbarthiad y gweithwyr mudol o wledydd A8 sydd yng Nghymru. Ceir dwy ffynhonnell i'r data, y Cynllun Cofrestru Gweithwyr (WRS) a chofrestriadau Yswiriant Gwladol i Dramorwyr. Er bod peth anghysondeb rhwng y ddwy set ddata cynrychiolant yr ystadegau gorau sydd ar gael am weithwyr mudol ym Mhyrdain. Fodd bynnag, perthyn problemau a diffygion i'r ddwy set ddata.

Mae'n ddyletswydd ar weithwyr o wledydd A8 sy'n bwriadu gweithio am o leiaf fis yn y DU gofrestru ar y Cynllun Cofrestru Gweithwyr. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod mewn gwaith wrth gofrestru, ond nid yw'n ofynnol i weithwyr hunangyflogedig gofrestru. Yn ogystal â gweithwyr hunangyflogedig, credir bod nifer sylweddol o weithwyr mudol A8 heb gofrestru ar y cynllun. Nid oedd ond saith o bob deg atebwr yn ein harolwg wedi cofrestru ar y WRS. Mae data'r WRS yn ddiffygiol oherwydd eu bod yn cofrestru cofrestriadau, ond mae'n bosibl bod gweithwyr sy'n symud i swydd newydd, neu sydd wedi dychwelyd i'w gwlad enedigol, heb ddatgofrestru neu newid eu manylion cofrestredig. At hynny, cofnodir data WRS gweithwyr yn ôl eu man gwaith ac nid yn ôl y cyfeiriad lle maent yn byw.

Mae'r ail set ddata yn cofnodi'r rhifau Yswiriant Gwladol a glustnodwyd ar gyfer dinasyddion o'r tu allan i'r DU. Unwaith eto, nid yw'r set ddata hon yn cofnodi nifer y gweithwyr o'r tu allan i'r DU sy'n gweithio ym Mhrydain yn llawn, a dywedodd chwarter o atebwyr ein harolwg nad oedd ganddynt rifau Yswiriant Gwladol. Yn yr un modd, cyfyd yr un math o broblemau ag a geir â'r WRS wrth i weithwyr mudol symud i ardaloedd newydd neu ddychwelyd i'w gwlad enedigol ar ôl cofrestru am Yswiriant Gwladol, ond heb o reidrwydd newid eu manylion. Talgrynnwyd nifer y cofrestriadau am Yswiriant Gwladol i'r 10 agosaf.

## 2.2 Nifer y Gweithwyr Mudol yng Nghymru Wledig

Er gwaethaf yr anawsterau a grybwyllir uchod, gellir defnyddio data'r WRS ac Yswiriant Gwladol i amcangyfrif nifer y gweithwyr mudol A8 yng Nghymru wledig, ac i amlinellu eu proffil yn fras. Dengys y ffigyrau diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y WRS fod 5,730 o gofrestriadau ar gyfer y naw sir wledig yng Nghymru rhwng mis Mai 2004 a mis Mawrth 2007 (WAG, 2007).[3] Ni choladwyd data Yswiriant Gwladol ar gyfer yr un cyfnod, ond dengys y gymhariaeth rhwng data'r WRS ac Yswiriant Gwladol hyd at ddiwedd mis Mawrth 2006 rywfaint o anghysondeb gan fod 875 mwy o gofrestriadau'r WRS na chofrestriadau Yswiriant Gwladol gan ddinasyddion A8 yng Nghymru wledig (gweler tabl 2.1). Awgryma'r ddwy set ddata fodd bynnag fod mwy na thraean o weithwyr mudol A8 yng Nghymru yn byw ac/neu'n gweithio mewn siroedd gwledig, er y dylid nodi bod y ffigyrau hyn yn cynnwys Llanelli, sydd â phoblogaeth sylweddol o weithwyr mudol.


3 Diffinnir Cymru wledig yma fel Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Ddinbych, Gwynedd, Sir Fynwy, Sir Benfro, Powys ac Ynys Môn.

**Tabl 2.1: Cofrestriadau'r WRS a Chofrestriadau Yswiriant Gwladol Tramor gan ddinasyddion gwledydd A8**


| | Cofrestriadau'r WRS, Mai 2004 - Mawrth 2007 | | Cofrestriadau'r WRS, Mai 2004 - Mawrth 2006 | | Cofrestriadau Yswiriant Gwladol A8, Ebrill 2004 - Mawrth 2006 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru Wledig | 5730 | 35.3% | 4525 | 37.3% | 3650 | 33.7% |
| Ardaloedd Rhannol-wledig | 3930 | 24.2% | 2774 | 22.8% | 2550 | 23.5% |
| Cymoedd | 1750 | 10.8% | 1120 | 9.2% | 1450 | 13.4% |
| Ardaloedd Trefol | 4815 | 29.7% | 3725 | 30.7% | 3190 | 29.4% |
| Cymru | 16225 | 100.0% | 12144 | 100.0% | 10840 | 100.0% |

Amlyga data'r Yswiriant Gwladol fod cynnydd mawr yn nifer y mewnfudwyr i Gymru wledig o Ganol a Dwyrain Ewrop yn sgil ehangu'r Undeb Ewropeaidd. Cyn yr ehangu, nid oedd ond 10 o ddinasyddion o'r darpar wledydd A8 wedi'u cofrestru am Yswiriant Gwladol yng Nghymru wledig yn 2002-3 a dim ond 30 yn 2004-5. Yn 2004-5,cofrestrodd 960 o ddinasyddion y gwledydd A8 am Yswiriant Gwladol yng Nghymru wledig, gan gynyddu o 180% i 2690 yn 2005-6. Fodd bynnag, dylid sylwi bod cofrestru am Yswiriant Gwladol yng Nghymru wledig gan ddinasyddion gwledydd tu allan i'r DU heblaw am wledydd A8 wedi cynyddu hefyd o 88% rhwng 2002-3 a 2005-6, o 1250 i 2350. Fel y dengys ffigyrau 2.1 a 2.2 mae mudo o Ganol a Dwyrain Ewrop wedi cyfrannu at ddyblu cyfradd y gweithwyr tramor a gyflogir yng Nghymru gyfan rhwng 2002 a 2006, ond mae'r effaith wedi bod yn arbennig o drawiadol yng nghefn gwlad Cymru.

Ffigur 2.1: Cofrestriadau Yswiriant Gwladol gan Ddinasyddion o'r Tu Allan i'r DU rhwng 2002/03 a 2005/06 yng Nghymru



Ffigur 2.2: Cofrestriadau Yswiriant Gwladol gan Ddinasyddion o'r Tu Allan i'r DU rhwng 2002/03 a 2005/06 yng Nghymru Wledig




O ddadansoddi data'r WRS gwelir bod nifer y cofrestriadau wedi cynyddu o 2005 i 2006 a gwelir bod arwyddion o arafu yng nghyfradd y cofrestriadau yn gynnar yn 2007. Roedd cyfradd yr arafu yn nifer y cofrestriadau yn amlycach yng Nghymru wledig nag yng Nghymru yn gyffredinol (tabl 2.2).

**Tabl 2.2: Cofrestriadau'r WRS yn ôl dyddiad**

| | Mai 2004 - Rhagfyr 2005 | | 2006 | | Ionawr-Mawrth 2007 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhif | Cyfradd y mis | Rhif | Cyfradd y mis | Rhif | Cyfradd y mis |
| Cymru Wledig | 2770 | 131.9 | 2800 | 233.3 | 650 | 216.7 |
| Ardaloedd Rhannol-wledig | 1455 | 69.3 | 1930 | 160.8 | 545 | 181.7 |
| Cymoedd | 535 | 25.5 | 970 | 80.8 | 235 | 78.3 |
| Ardaloedd Trefol | 2470 | 117.6 | 1900 | 158.3 | 450 | 150.0 |
| Cymru | 7230 | 344.3 | 7220 | 601.7 | 1770 | 590.0 |

Mae'r mwyafrif mawr o weithwyr mudol A8 yng Nghymru wledig yn dod o Wlad Pwyl. Awgryma data'r WRS yn ogystal â data Yswiriant Gwladol fod dros 70% o weithwyr mudol yng Nghymru wledig yn dod o Wlad Pwyl, ac nid yw un o'r grwpiau cenedlaethol eraill yn ffurfio mwy na 10% o'r cyfanswm (tabl 2.3). Dyma grynodiad uwch na'r hyn a geir yng Nghymru yn gyffredinol:

Roedd 64% o bob cofrestriad ar y WRS yng Nghymru rhwng mis Mai 2004 a mis Medi 2006 yn ddinasyddion Gwlad Pwyl, 16% yn ddinasyddion Slofacia a 7% yn ddinasyddion Lithiwania. Roedd dros 45% o gofrestriadau ar y WRS gan ddinasyddion Gwlad Pwyl yng Nghymru yn ystod y cyfnod hwn mewn siroedd gwledig, o'u cymharu â 23% yn unig o gofrestriadau gan ddinasyddion o Lithiwania,

18% o gofrestriadau gan ddinasyddion Hwngari a 17% o gofrestriadau gan ddinasyddion Slofacia.

**Cenedl y cofrestriadau A8 ar y WRS ac Yswiriant Gwladol yng Nghymru wledig 2004-2006**

| Gwlad enedigol | Cofrestriadau'r WRS, Cymru Wledig (Mai 2004 - Medi 2006) | | Cofrestriadau Yswiriant Gwladol, Cymru Wledig (2004-6) | |
|---|---|---|---|---|
| Gwlad Pwyl | 3580 | 79.1% | 2640 | 72.3% |
| Slofacia | 332 | 7.3% | 330 | 9.0% |
| Lithiwania | 197 | 4.4% | 250 | 6.8% |
| Latfia | 164 | 3.6% | 140 | 3.8% |
| Y Weriniaeth Tsiec | 115 | 2.5% | 160 | 4.4% |
| Hwngari | 89 | 2.0% | 70 | 1.9% |
| Estonia | 44 | 1.0% | 60 | 1.6% |
| Slofenia | 4 | 0.1% | 0 | 0,0% |

Ceir hefyd gryn amrywiaeth daearyddol yn nosbarthiad y gwahanol genhedloedd A8 yng Nghymru, er bod cyfansymiau'r dinasyddion o'r tu allan i Wlad Pwyl yn fach. Tra bo 56% o gofrestriadau'r WRS gan ddinasyddion Gwlad Pwyl yng Nghymru wledig yn Sir Gaerfyrddin, roedd y crynodiad mwyaf o ddinasyddion Estonia yn Sir Ddinbych (41% o gyfanswm Cymru wledig), o Hwngariaid ym Mhowys (31%), o Latfiaid yn Sir Benfro (24%), Lithiwaniaid yng Ngwynedd (21%) a Slofaciaid yn Sir Benfro (30%).


## 2.3 Dosbarthiad Daearyddol

Datgela'r dadansoddiad uchod fod gwahaniaethau yn nosbarthiad daearyddol gweithwyr mudol A8 rhwng ardaloedd gwledig a threfol Cymru, ond ceir gwahaniaethau daearyddol o fewn Cymru wledig yn ogystal. Fel y dengys tabl 2.4, digwydd pedwar o bob deg cofrestriad WRS yn siroedd gwledig Cymru hyd at fis Mawrth 2007 yn Sir Gaerfyrddin. Sir Benfro a Phowys oedd y siroedd mwyaf sylweddol wedyn. Yn yr un modd, dengys data Yswiriant Gwladol pa mor fawr fu Sir Gaerfyrddin o fewn Cymru wledig (ffigur 2.3) a'i safle yn yr ail gwintel yn y DU yn gyffredinol (ffigur 2.4)


**Tabl 2.4: Dosbarthiad daearyddol y cofrestriadau'r WRS yng Nghymru wledig**

| | 2004-5 | 2006 | Chwarter 1 2007 | Cyfanswm | % |
|---|---|---|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 1260 | 1080 | 295 | 2635 | 46.0% |
| Sir Benfro | 245 | 250 | 55 | 550 | 9.6% |
| Powys | 250 | 245 | 40 | 540 | 9.4% |
| Conwy | 275 | 195 | 45 | 515 | 9.0% |
| Gwynedd | 270 | 205 | 20 | 495 | 8.6% |
| Sir Ddinbych | 150 | 565 | 150 | 375 | 6.5% |
| Ceredigion | 135 | 130 | 25 | 285 | 5.0% |
| Sir Fynwy | 130 | 95 | 10 | 235 | 4.1% |
| Ynys Môn | 55 | 35 | 10 | 100 | 1.7% |
| **Cyfanswm Cymru wledig** | **2770** | **2800** | **650** | **5730** | **100.0%** |

**Ffigur 2.3: Cofrestriadau Yswiriant Gwladol A8 yng Nghymru Wledig 2004-6**



**Ffigur 2.4: Cofrestriadau Yswiriant Gwladol A8 yn ôl ardaloedd Gwledydd Prydain, 2004-6**



Mae effaith y gweithwyr mudol A8 ar y gweithlu lleol hefyd yn amrywio o sir i sir. Yn Sir Gaerfyrddin, roedd nifer y ceisiadau llwyddiannus ar y WRS hyd at fis Mawrth 2007 yn fwy na 3.5% o gyfanswm swyddi'r sir, ond mewn ardaloedd eraill yng Nghymru wledig, roedd y ganran yn llawer llai arwyddocaol. Roedd nifer y ceisiadau llwyddiannus ar y WRS hyd at fis Mawrth 2007 ychydig yn uwch nag 1% o gyfanswm swyddi yng Nghonwy a Sir Benfro, ond roddent yn cyfateb i lai nag 1% o swyddi ym mhob ardal arall (WAG, 2007). Yn yr un modd, roedd cofrestriadau Yswiriant Gwladol gan ddinasyddion A8 yn fwy sylweddol o'u cymharu â chyfanswm y boblogaeth oedran gweithio yn Sir Gaerfyrddin nag yn unman arall, er bod Gwynedd a Phowys yn amlwg wrth i nifer y cofrestriadau Yswiriant Gwladol A8 fod yn uwch na 0.5% o'r boblogaeth oedran gweithio leol ym mis Mawrth 2006 (ffigur 2.5).


Llawer amlycach ar y raddfa leol mewn siroedd yw'r gwahaniaethau daearyddol yn nosbarthiad y gweithwyr mudol A8, er bod y data sydd ar gael ar y raddfa hon yn llai dibynadwy. Mae Sir Gaerfyrddin mor amlwg o fewn Cymru wledig yn bennaf oherwydd bod crynodiad o weithwyr mudol A8 yn Llanelli. Yn ôl dadansoddiad Heddlu Dyfed-Powys o ddata côd post y WRS roedd 1574 o gofrestriadau mewn gwaith yn Llanelli a Chwm Gwendraeth (codau post SA14 a SA15) hyd at fis Mehefin 2006, sy'n cynrychioli 81% o holl gofrestriadau'r WRS yn Sir Gaerfyrddin (Heddlu Dyfed-Powys, 2006). Fodd bynnag, nid yw'r nifer hon fwy na thebyg yn rhoi cyfrif llawn am wir nifer y gweithwyr mudol A8 yn yr ardal. Yn ôl amcangyfrif y Canolfan Cyngor i Bwyliaid yn Llanelli mae o leiaf 2000 o ddinasyddion Gwlad Pwyl yn byw yn y dref a'r cylch, ac mae dros 1000 o ddinasyddion gwledydd A8 wedi cofrestru â meddygon teulu yn Llanelli (Cyngor Sir Caerfyrddin, 2007).
Yn yr un modd, mae'r nifer yng Nghonwy yn cynnwys nifer sylweddol o ddinasyddion A8 sy'n byw ac yn gweithio yn Llandudno, er nad yw'r ffigwr hwn wedi'i fesur. Mae Llanelli a Llandudno yn drefydd sylweddol a gaiff eu diffinio fel rhan o 'Gymru wledig'. Er hynny, ar raddfa'r awdudod lleol cânt eu heithrio fel arfer wrth ddiffinio 'Cymru wledig' yn ôl unedau ar raddfa lai fel codau post neu wardiau. O eithrio'r ddwy dref hyn amcangyfrifir bod cyfanswm y cofrestriadau'r WRS yng Nghymru wledig rhwng 3000 a 3250 hyd at fis Mawrth 2007.

Ymhlith y crynodiadau daearyddol eraill o weithwyr mudol A8, a ganfuwyd trwy ddadansoddi codau post a thystiolaeth leol arall, y mae Hwlffordd, Llanybydder a Dinbych-y-pysgod, sydd oll ag oddeutu 100 o gofrestriadau hyd at fis Mawrth 2006, ac Aberystwyth, Betws-y-coed, Aberhonddu, Caerfyrddin, Llandrindod, Aberdaugleddau, Ceinewydd a'r Trallwng, sydd ag o leiaf 30 o gofrestriadau'r WRS hyd at fis Mawrth 2006.

## 2.4 Rhyw ac Oedran

Mae'r mwyafrif o weithwyr mudol y gwledydd A8 sy'n gweithio yng Nghymru wledig yn ddynion, ond mae'r cydbwysedd rhwng y ddau ryw yn llawer agosach nag y gwelwyd gynt ar gyfer gweithwyr mudol, er enghraifft ymhlith gweithwyr o Fecsico yn yr Unol Daleithiau a gweithwyr o Dwrci yn yr Almaen, a dueddai i fod yn ddynion. Dynion oedd 57% o gofrestriadau'r WRS yng Nghymru wledig hyd at fis Mawrth 2006. Mae dwy nodwedd hynod o wahanol yn perthyn i'r gweithlu mudol A8 yng Nghymru wledig yn hyn o beth.

**Ffigur 2.5: Cofrestriadau Yswiriant Gwladol gan ddinasyddion A8 mewn cymhariaeth â'r gweithlu lleol oedran gweithio.**



Yn gyntaf, mae gweithwyr mudol yng Nghymru wledig yn cynnwys cryn nifer o bobl ifainc sengl, yn ddynion ac yn ferched. Roedd 41% o gofrestriadau'r WRS rhwng mis Mai 2004 a mis Mawrth 2006 gan unigolion rhwng 18 a 24 oed, ac roedd 34% gan bobl rhwng 24 a 35 oed (tabl 2.5). Mae'n werth nodi bod dros hanner y gweithwyr a gofrestrwyd rhwng 18 a 24 oed yn fenywod. At hynny, ymhlith yr atebwyr yn ein harolwg dywedodd 49% eu bod yn sengl.

**Tabl 2.5: Oedran a rhyw gweithwyr mudol a gofrestrodd ar y WRS yng Nghymru wledig, Mai 2004-Mawrth 2006**

| Oedran | Dynion | Menywod | Pawb | % y cyfanswm | % menywod |
|---|---|---|---|---|---|
| 18 – 24 | 921 | 933 | 1854 | 41.1% | 50.3% |
| 25 – 34 | 968 | 560 | 1528 | 33.9% | 36.6% |
| 35 – 44 | 370 | 215 | 585 | 13.0% | 36.8% |
| 45 – 54 | 262 | 199 | 461 | 10.2% | 43.2% |
| Dros 55 | 31 | 35 | 66 | 1.5% | 53.0% |
| Heb nodi oedran | 6 | 10 | 16 | 0.4% | 62.5% |

Yn ail, daeth nifer sylweddol o weithwyr mudol â'u partneriaid i Gymru, neu a ddaeth â'u teuluoedd wedyn i Gymru. Dywedodd ychydig lai na chwarter o'r bobl a holwyd eu bod wedi dod â'u partner, a dywedodd fwy na thraean ohonynt fod eu teulu yn byw gyda hwy yng Nghymru. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif mawr o weithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru â phobl yn ddibynnol arnynt. Yn ôl data'r WRS, dywedodd 97% o weithwyr yng nghefn gwlad Cymru nad oedd neb yn dibynnu arnynt wrth gofrestru - sef canran uwch nag ar gyfer unrhyw ran arall o Gymru. Dywedodd chwech o bob deg a holwyd yn ein harolwg nad oedd ganddynt blant o gwbl.

Amrywia'r patrymau hyn i raddau, fodd bynnag, yn ôl y math y swydd ac felly yn ôl yr ardal yng nghefn gwlad Cymru. Tueddir i ddenu mwy o fenywod a gweithwyr ifainc i swyddi mewn gwestai, arlwyo a busnesau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn ogystal ag i swyddi yn y sector gofal. O'r herwydd, mae hanner y gweithwyr mudol a gofrestrwyd ar y WRS yng Nghonwy, Sir Ddinbych a Gwynedd yn fenywod; a gweithwyr mudol rhwng 18 a 24 oed yw'r mwyafrif mewn llawer o siroedd, gan gynnwys Ceredigion, Conwy a Gwynedd. Ar y llaw arall, nid oedd ond 31% o gofrestriadau'r WRS hyd at fis Mawrth 2006 yn Sir Gaerfyrddin yn weithwyr rhwng 18 a 24 oed, ac nid oedd ond 38% yn fenywod (tabl 2.6).

**Tabl 2.6: Gwahaniaethau daearyddol yn oedran a rhyw gweithwyr mudol a gofrestrwyd ar y WRS, Mai 2004-Mawrth 2006**

| | Oedran 18-24 | Menywod |
|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 31.1% | 37.6% |
| Ceredigion | 54.0% | 46.0% |
| Conwy | 54.5% | 55.3% |
| Sir Ddinbych | 41.1% | 51.9% |
| Gwynedd | 60.0% | 53.5% |
| Sir Fynwy | 43.1% | 34.9% |
| Sir Benfro | 52.1% | 46.0% |
| Powys | 41.1% | 46.3% |
| Ynys Môn | 36.5% | 40.5% |

## 2.5 Cyflogaeth

Mae gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru yn gwneud gwaith cyflogedig mwy amrywiol na gweithwyr mudol yng Nghymru yn gyffredinol. At ei gilydd, roedd 64% o gofrestriadau'r WRS rhwng mis Mai 2004 a mis Medi 2006 yn y sector gwasanaethu, ond roedd y rhain yn llai cyfyngedig i wasanaethau gweinyddol, busnes a rheoli nag yng Nghymru yn gyffredinol. Y sectorau mwyaf arwyddocaol yw'r gwasanaethau lletygarwch ac arlwyo; gweithgynhyrchu a gweinyddu, busnes a rheoli, lle'r oedd pob un ohonynt yn cynnwys rhwng chwarter ac un rhan o bump o holl gofrestriadau'r WRS yng nghefn gwlad Cymru. Un agwedd nodedig ar lafur mudol yng nghefn gwlad Cymru o'i gymharu ag ardaloedd gwledig yn Lloegr yw'r diffyg pwyslais cymharol ar amaethyddiaeth fel ffynhonnell gwaith. Nid oedd ond 4.5% o gofrestriadau'r WRS yng nghefn gwlad Cymru mewn amaethyddiaeth o'u cymharu â 10% o gofrestriadau ar draws y DU yn gyffredinol. Yn Sir Benfro roedd oddeutu hanner yr holl weithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru a oedd yn gweithio mewn amaethyddiaeth yn byw, ac roedd dros 10% yn Sir Gaerfyrddin, Mynwy a Phowys. Elfen nodedig arall o waith mudol cefn gwlad Cymru yw'r nifer fechan ond arwyddocaol o waith mewn prosesu cig, a oedd yn cyfrif am 3.4% o gofrestriadau'r WRS hyd at fis Medi 2006. Fodd bynnag, roedd 80% o'r swyddi hyn yn Sir Gaerfyrddin.

**Tabl 2.7: Diwydiant Cyflogaeth y gweithwyr mudol a gofrestrodd ar y WRS, Mai 2004 - Medi 2006.**

| | Cymru Wledig | Cymru Gyfan |
|---|---|---|
| Diwydiant lletygarwch ac arlwyo | 27.0% | 18.8% |
| Gweithgynhyrchu | 23.0% | 16.0% |
| Gwasanaethau Gweinyddu, Busnes a Rheoli | 21.7% | 40.9% |
| Gwasanaethau iechyd a meddygol | 7.6% | 5.4% |
| Amaethyddiaeth | 4.5% | 3.1% |
| Gwasanaethau adloniant a hamdden | 4.1% | 2.4% |
| Gwasanaethau adeiladu a thir | 3.0% | 2.4% |
| Prosesu cig | 3.4% | 1.9% |
| Prosesu bwydydd eraill | 1.9% | 3.0% |
| Gwasanaethau manwerthu a gwasanaethu perthynol | 1.9% | 3.0% |
| Trafnidiaeth | 1.2% | 1.8% |
| Arall | 1.1% | 1.6% |

Yn fwy cyffredinol, roedd amrywiaethau daearyddol o bwys yn nosbarthiad y gweithwyr mudol a gyflogwyd yn y sectorau hyn, fel y dengys tabl 2.8. Gwaith yn ymwneud â'r diwydiant ymwelwyr, yn enwedig ym maes lletygarwch ac arlwyo, sydd amlycaf yn siroedd glan môr gorllewin Cymru; gweithgynhyrchu yw'r pwysicaf yn sir Gâr a Phowys; a gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â sector gwasanaethau ymwelwyr sydd amlycaf yn Sir Ddinbych a Mynwy.


**Tabl 2.8: Tri sector gwaith mwyaf i weithwyr mudol a gofrestrwyd ar y WRS yng nghefn gwlad Cymru, yn ôl y sir, Mai 2004 - Medi 2006.**

| **Sir Gaerfyrddin** | **Gweithgynhyrchu 43%** | **Gweinyddu, Busnes a Rheoli** | **Prosesu cig** |
|---|---|---|---|
| Ceredigion | Diwydiant lletygarwch ac arlwyo 35% | Gwasanaethau adloniant a hamdden 20% | Gwasanaethau iechyd a meddygol 13% |
| Conwy | Diwydiant lletygarwch ac arlwyo 80% | Gwasanaethau iechyd a meddygol 6% | Gwasanaethau adloniant a hamdden 4% |
| Sir Ddinbych | Gwasanaethau iechyd a meddygol 43% | Diwydiant lletygarwch ac arlwyo 31% | Gweithgynhyrchu 6% |
| Gwynedd | Diwydiant lletygarwch ac arlwyo 55% | Gwasanaethau adloniant a hamdden 19% | Gwasanaethau iechyd a meddygol 7% |
| Sir Fynwy | Gweinyddu, Busnes a Rheoli 35% | Diwydiant lletygarwch ac arlwyo 12% | Amaethyddiaeth 10% |
| Sir Benfro | Diwydiant lletygarwch ac arlwyo 42% | Amaethyddiaeth 24% | Adeiladu 13% |
| Powys | Gweithgynhyrchu 14% | Gwasanaethau iechyd a meddygol 12% | Gweinyddu, Busnes a Rheoli 8% |
| Ynys Môn | Lletygarwch ac Arlwyo 38% | Amaethyddiaeth 16% | Prosesu cig 12% |

Tuedda'r gweithwyr mudol o wledydd A8 i fod yn gyflogedig mewn swyddi o statws a thâl is yn y diwydiannau hyn. O ddadansoddi'r data yng nghyswllt y Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol (SOC) (ONS, 2000) gwelir bod 80% o weithwyr mudol sydd wedi cofrestru ar y WRS yng nghefn gwlad Cymru yn gyflogedig yn y grwpiau galwedigaethol lleiaf eu sgiliau: gweithwyr prosesu, ffatri a pheiriannau (grwp 8) a grwpiau galwedigaethol elfennol (grwp 9) (tabl 2.9). Ymhlith y boblogaeth weithio lawn yng nghefn gwlad Cymru, fodd bynnag, nid oedd ond 21% yn perthyn i'r ddau grwp hyn (ffigur 2.6). Fodd bynnag, mae'r proffil hwn ychydig lai dwys na'r hyn a geir ar gyfer gweithwyr mudol yng Nghymru yn gyffredinol. Ceir canran gymharol uwch o waith mewn swyddi proffesiynol, gweinyddol ac ysgrifenyddol, a gwasanaethau gwasanaethu personol.

**Tabl 2.9: Dosbarthiad y cofrestriadau'r WRS, Mai 2004 - Medi 2006, yn ôl grwpiau'r Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol.**

| **Categori SOC** | **Cymru Wledig** | | **Cymru Gyfan** | |
|---|---|---|---|---|
| | Rhif | % | Rhif | % |
| Grwp 1: Rheolwyr a phrif swyddogion | 23 | 0.5 | 70 | 0.6 |
| Grwp 2: Galwedigaethau proffesiynol | 77 | 1.7 | 155 | 1.3 |
| Grwp 3: Galwedigaethau proffesiynol perthynol a thechnegol | 22 | 0.5 | 49 | 0.4 |
| Grwp 4: Galwedigaethau gweinyddol ac ysgrifenyddol | 142 | 3.1 | 291 | 2.4 |
| Grwp 5: Galwedigaethau crefftau medrus | 216 | 4.8 | 420 | 3.5 |
| Galwedigaethau gwasanaethau personol | 332 | 7.3 | 544 | 4.5 |
| Grwp 7: Galwedigaethau gwasanaethau gwerthu a chwsmeriaid | 61 | 1.3 | 206 | 1.7 |
| Grwp 8: Gweithwyr prosesu, ffatri a pheiriannau | 1871 | 41.3 | 5461 | 45.0 |
| Grwp 9: Galwedigaethau elfennol | 1774 | 39.2 | 4926 | 40.6 |
| Diddosbarth | 7 | 0.2 | 18 | 0.1 |




Gwelir dwysedd uchel o weithlu mudol yng nghefn gwlad Cymru hefyd yn y modd y mae dros dri chwarter o holl gofrestriadau'r A8 ar y WRS rhwng mis Mai 2004 a mis Medi 2006 ar gyfer deg galwedigaeth yn unig. Cyflogir pedwar o bob deg o weithwyr mudol a gofrestrodd ar y WRS fel gweithwyr prosesu mewn ffatrïoedd, sef llafur heb sgiliau a llafur lled-grefftus mewn ffatrïoedd (tabl 2.10). Ymhlith y galwedigaethau arwyddocaol eraill y mae cynorthwywyr mewn cegin ac arlwyo, cynorthwywyr gofal, staff gweini, morynion mewn gwestai a gweinyddwyr ystafell, pacwyr a glanhawyr a chynorthwywyr domestig. Dengys y dystiolaeth hon fod y mwyafrif mawr o weithwyr mudol A8 yn gyflogedig mewn mân swyddi o statws isel ac yn aml yn isel eu tâl nad oes angen ond ychydig o sgiliau neu gymwysterau neu nad oes angen dim sgiliau o gwbl.

**Tabl 2.10: Prif alwedigaethau ar gyfer cofrestriadau'r WRS yng nghefn gwlad Cymru, Mai 2004 - Medi 2006.**

| Rheng | Galwedigaeth | Rhif Cymru Wledig | Cymru Wledig % | Cymru Gyfan % a rheng |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Gweithiwr prosesu mewn ffatri | 1798 | 39.7% | 41.7% (1) |
| 2 | Cynorthwyydd mewn cegin/arlwyo | 364 | 8.0% | 5.8% (4) |
| 3 | Cynorthwywr Gofal / Gofalwr cartref | 281 | 6.2% | 3.8% (7) |
| 4 | Gweinyddwr(aig) | 263 | 5.8% | 3.8% (6) |
| 5 | Morwyn mewn gwesty / gweinyddydd ystafell | 244 | 5.4% | 3.7% (8) |
| 6 | Paciwr | 162 | 3.6% | 5.3% (3) |
| 7 | Cynorthwyydd domestig / Glanhawr | 141 | 3.1% | 4.1% (5) |
| 8 | Gweinyddwr | 97 | 2.1% | 1.6% (10) |
| 9 | Gweithiwr prosesu mewn ffatri | 89 | 2.0% | 2.5% (9) |
| 10 | Gweithiwr mewn warws | 86 | 1.9% | 8.4% (2) |
| 11 | Gweithiwr fferm | 85 | 1.9% | 1.1% (14) |
| 12 | Staff y bar | 83 | 1.8% | 1.4% (11) |
| 13 | Pen-cogydd | 73 | 1.6% | 1.0% (15) |
| 14 | Adeiladwr | 57 | 1.3% | 1.4% (12) |
| 15 | Gweinyddwr mewn parc hamdden | 53 | 1.2% | 0.6% (18) |

Ceir amrywiadau eto rhwng siroedd o ran mathau o alwedigaethau sydd gan weithwyr mudol ac o ran dwysedd y gweithlu mudol mewn rhai galwedigaethau (tabl 2.11).

**Tabl 2.11: Y tair galwedigaeth fwyaf niferus i weithwyr mudol a gofrestrodd ar y WRS yng nghefn gwlad Cymru, yn ôl sir, Mai 2004 - Medi 2006.**

| **Sir Gaerfyrddin** | **Gweithiwr prosesu mewn ffatri: 1453 (69%)** | **Gweithiwr prosesu bwyd (cig): 109 (5%)** | **Paciwr: 104 (5%)** |
|---|---|---|---|
| **Ceredigion** | Cynorthwyydd domestig / Glanhawr: 41 (19%) | Cynorthwyydd mewn cegin/arlwyo: 38 (18%) | Gweithiwr prosesu mewn ffatri: 19 (9%) |
| **Conwy** | Morwyn mewn gwesty / gweinyddydd mewn ystafell: 92 (23%) | Staff gweini: 86 (21%) | Cynorthwyydd arlwyo / yn y gegin: 73 (18%) |
| **Sir Ddinbych** | Cynorthwywr Gofal / Gofalwr cartref: 109 (38%) | Cynorthwyydd mewn cegin/arlwyo: 32 (11%) | Gweithiwr prosesu mewn ffatri: 19 (7%) |
| **Gwynedd** | Cynorthwyydd mewn cegin/arlwyo: 49 (12%) | Staff gweini: 49 (12%) | Morwyn mewn gwesty / gweinyddydd mewn ystafell: 37 (9%) |
| **Sir Fynwy** | Gweithiwr prosesu mewn ffatri: 47 (24%) | Gweithiwr mewn warws: 38 (19%) | Cynorthwyydd mewn cegin/arlwyo: 23 (12%) |
| **Sir Benfro** | Cynorthwyydd arlwyo / yn y gegin: 73 (17%) | Staff gweini: 55 (13%) | Paciwr: 36 (8%) |
| **Powys** | Gweithiwr prosesu mewn ffatri: 87 (21%) | Morwyn mewn gwesty / gweinyddydd mewn ystafell: 55 (14%) | Cynorthwyydd mewn cegin/arlwyo: 52 (13%) |
| **Ynys Môn** | Morwyn mewn gwesty / gweinyddydd mewn ystafell: 10 (14%) | Gweithiwr prosesu mewn ffatri: 9 (12%) | Cynorthwyydd mewn cegin/arlwyo: 6 (8%) |

## 2.6 Crynodeb

Yn y bennod hon cyflwynir amlinelliad bras o broffil gweithwyr mudol o wledydd A8 yng nghefn gwlad Cymru, gan ddefnyddio data oddi wrth gofrestriadau'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr ac Yswiriant Gwladol gan ddinasyddion i wledydd y tu allan i'r DU. Dengys y dadansoddiad hwn fod o leiaf 5,750 o weithwyr mudol o Ganol a Dwyrain Ewrop wedi symud i gefn gwlad Cymru rhwng mis Mai 2004 a mis Medi 2007, ond mae diffygion yn y data a'r gyfradd uchel o weithwyr mudol nad yw'n cofrestru yn golygu nad oes modd dod o hyd i rif manwl gywir. Yn ôl ein hamcangyfrif gorau a gymer i ystyriaeth nifer y sawl sydd heb gofrestru, mae dros 10,000 o weithwyr mudol wedi dod i gefn gwlad Cymru erbyn dechrau 2008, ac mae'n debyg fod dwy ran o dair ohonynt o hyd yn byw a gweithio yn yr ardal (gan gynnwys Llanelli a Llandudno).

Dengys dadansoddiad o'r data fod:

- Saith o bob deg o weithwyr mudol A8 yng nghefn gwlad Cymru yn Bwyliaid, sef dwysedd uwch na'r hyn a geir ar gyfer Cymru a'r DU yn gyffredinol.
- Ceir oddeutu tri gweithiwr mudol gwryw i bob dwy weithwraig fudol yng nghefn gwlad Cymru, ond mae'r rhan fwyaf o weithwyr mudol dan 25 oed yn fenywod.
- Mae dros 70% o weithwyr mudol yng Nghymru wledig dan 35 oed.
- Mae dwy ran o dair o weithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru yn gweithio yn y sector gwasanaethau, ac mae lletygarwch ac arlwyo a gweinyddu, gwasanaethau busnes a rheoli ymhlith y diwydiannau mwyaf eu cyflogaeth.
- Mae bron chwarter y gweithwyr mudol yn gweithio yn y diwydiant gweithgynhyrchu.

- Yn anad dim, mewn gwaith isel ei statws a heb sgiliau neu mewn swyddi lled-grefftus y mae gweithwyr mudol yn gweithio, ac ar gyfer dros dri chwarter o swyddi'r gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru nid oes ond deg galwedigaeth. Mae pedwar o bob deg gweithiwr yn yr ardal yn gweithio mewn ffatri.

Mae dosbarthiad daearyddol y gweithwyr mudol A8 yng nghefn gwlad Cymru yn anwastad iawn. Mae dros 45% o weithwyr mudol cefn gwlad Cymru - fel y'u diffinnir gan awdurdodau lleol - yn Sir Gaerfyrddin. Fodd bynnag, mae'r ffigyrau yn Sir Gaerfyrddin wedi chwyddo oherwydd bod nifer fawr iawn o weithwyr mudol yn Llanelli, sydd yn ôl y farn gyffredin yn ardal drefol. O eithrio Llanelli a Llandudno (lle y ceir gweithlu mudol o bwys er ei fod yn llai) mae cyfanswm y gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru o leiaf 2,000 yn llai.

Ceir amrywiadau hefyd ym mhroffil gweithwyr mudol A8 rhwng gwahanol rannau cefn gwlad Cymru. Mewn siroedd fel Conwy, Gwynedd a llawer o Sir Benfro, y diwydiant ymwelwyr yw'r prif sector sy'n cyflogi gweithwyr mudol gan ddenu mwy o fenywod a phobl ifainc na chefn gwlad Cymru yn gyffredinol. Yn Sir Gaerfyrddin a Phowys, ar y llaw arall, gweithgynhyrchu yw'r prif sector gwaith, a thuedda'r gweithlu mudol i fod yn hyn ac i gynnwys mwy o ddynion nag o fenywod. Ymhelaethir ar y dadansoddiad hwn yn y penodau a ganlyn.

# PENNOD 3: PATRYMAU MEWNFUDO


## 3.1 Cyflwyniad

Yn y bennod hon eir i'r afael â phatrymau mewnfudo gweithwyr o wledydd A8 o Ganol a Dwyrain i gefn gwlad Cymru. Canolbwyntir yn benodol ar y penderfyniadau i adael eu mamwlad a dod i fyw i ganol cymunedau yng nghefn gwlad Cymru; llwybrau mewnfudo; cysylltiadau blaenorol â Chymru; cysylltiadau â'r famwlad sy'n parhau; a bwriadau at y dyfodol parthed lle byw. Seilir y dadansoddi yn bennaf ar ddata'r arolwg holiadurol a gynhaliwyd ymhlith gweithwyr mudol ym mhedair astudiaeth achos ardaloedd Betws-y-coed a Llanrwst; gogledd Sir Gaerfyrddin a Cheredigion; Aberdaugleddau a Hwlffordd; a'r Trallwng. Er bod y dadansoddiad hwn yn deall penderfyniadau a phrosesau mudo dinasyddion A8 sydd bellach yn byw yng nghefn gwlad Cymru yn dda, cyfyngedig ydyw gan nad yw'n cynnig gwybodaeth o gwbl am y gweithwyr mudol hynny sydd eisoes wedi gadael yr ardal, gan gynnwys y rheiny sydd wedi dychwelyd i'w mamwlad.

## 3.2 Cyrraedd Cymru


Yn gyson â'r dadansoddiad o ddata'r WRS, mae canlyniadau'r holiaduron yn awgrymu bod patrwm cyson a pharhaol o fewnfudo ers i wledydd Canol a Dwyrain Ewrop ymuno â'r Undeb Ewropeaidd ym mis Mai 2004. Yn fras perthyn atebwyr yr holiaduron i dri grwp. Roedd oddeutu traean ohonynt wedi bod yng nghefn gwlad Cymru am dros 18 mis, oddeutu traean ohonynt wedi cyrraedd rhwng 6 a 18 mis cyn ateb yr holiadur, ac oddeutu traean wedi cyrraedd yn ystod y 6 mis blaenorol (ffigur 3.1). Fodd bynnag, nid yw hyn o reidrwydd yn awgrymu bod patrwm cynyddol o fewnfudo ar waith, gan fod ffigurau'r nifer a oedd wedi cyrraedd yn gynharach yn llai oherwydd bod nifer wedi dychwelyd a rhai wedi symud i ardaloedd eraill.

Ffigur 3.1 Hyd y Cyfnod yng Nghymru Wledig




O gadw'r dychweledigion hynny mewn cof, ymddengys fod mewnfudo yn arafu ychydig - sydd eto yn cadarnhau data'r WRS - ond mae o hyd yn gyson ac yn sylweddol. Yn ôl y patrwm hirdymor hefyd gwelir bod patrwm tymhorol, wrth i ragor gyrraedd ym misoedd Mehefin/Gorffennaf a Medi/Hydref, er bod angen dadansoddiad helaethach i gadarnhau'r duedd hon (ffigur 3.2).

Ffigur 3.2: Mis cyrraedd y gweithwyr mudol yn yr arolwg





Ceir cryn nifer o wahaniaethau rhwng ardaloedd yr astudiaethau achos. Yn ardaloedd y Trallwng a Sir Gaerfyrddin/Ceredigion roedd tuedd i'r atebwyr fod wedi bod yn yr ardal yn hwyach, tra bo pobl yn ardal Betws-y-coed/Llanrwst, ac yn enwedig Aberdaugleddau/Hwlffordd, wedi treulio llai o amser yn byw yn yr ardal, ac roedd 58 y cant wedi symud i Hwlffordd neu Aberdaugleddau yn ystod y 6 mis diwethaf, a 42 y cant ym Metws-y-coed a Llanrwst (28 y cant a 12 y cant oedd y ffigyrau cyfatebol ar gyfer y Trallwng a Sir Gaerfyrddin/Ceredigion).

Er gwaethaf yr adroddiadau'n ddiweddar a ddywed fod mewnfudo o wledydd A8 i'r DU ar raddfa lai, roedd oddeutu hanner yr atebwyr yn disgwyl i fewnfudo o'u mamwlad i'r DU barhau i gynyddu. Nid oedd ond un o bob chwech yn teimlo y byddai'r cyfraddau mewnfudo yn lleihau'n sylweddol. Atebwyr yn astudiaeth achos ardal Betws-y-coed/Llanrwst oedd y lleiaf tebygol i ragweld cynnydd mewn mewnfudo. Gall hyn fod o bwys gan eu bod yn tueddu i fod yn iau na'r atebwyr yn ardaloedd yr astudiaethau achos eraill.

Mae gweithwyr mudol wedi cyrraedd cefn gwlad Cymru mewn amryfal ffyrdd. At ei gilydd, dywedodd dros eu hanner eu bod wedi bod yn byw mewn rhan arall o'r DU cyn iddynt symud i fyw i gefn gwlad Cymru. Roedd hyn yn wir yn arbennig yn achos Aberdaugleddau/Hwlffordd a Betws-y-coed/Llanrwst, lle'r oedd wyth o bob deg wedi bod yn byw mewn rhan arall o'r DU gynt. Ar y llaw arall, roedd dros dri chwarter o atebwyr yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion a'r Trallwng wedi mewnfudo'n uniongyrchol o'u mamwlad. Bu'r gweithwyr mudo hynny a oedd wedi byw mewn lleoedd eraill yn y DU mewn amryw le, yn enwedig Llundain, Llanelli a threfydd ar y Gororau fel Ledbury, Llanllieni, Coleford, Tetbury a'r Rhosan ar Wy. Yn y rhan fwyaf o achosion bu'r cyfnodau preswyl hyn yn bur fyr a thros dro, gan amrywio o letya dros nos ar ôl cyrraedd y DU am y tro cyntaf hyd at fyw yno am ychydig o fisoedd. Roedd o leiaf dri atebwr, fodd bynnag, wedi byw mewn ardal arall yn y DU am flwyddyn neu ragor.

Yn y rhan fwyaf o achosion, yr hyn a oedd yn pennu pen y siwrnai i weithwyr mudol oedd gwaith, ond roedd oddeutu chwarter ohonynt wedi symud i'r dref er mwyn ymuno â chyfeillion neu deulu (ffigur 3.3). Roedd symud i ymuno â chyfeillion neu deulu yn wir yn arbennig yn achos atebwyr yn y Trallwng.




### 3.3 Gadael Cartref


Daw gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru o ardaloedd gwledig a threfol yn eu mamwlad. Disgrifiai trwch mawr y gweithwyr mudol eu hunain fel pobl o dref neu ddinas yn eu mamwlad, er bod y ganran o ardal wledig yn uwch ym Metws-y-coed/Llanrwst a'r Trallwng, a oedd o bosibl yn adlewyrchu ymgais ymwybodol i ddewis ardal wledig gyffelyb (tabl 3.1).

**Tabl 3.1: Ardal enedigol gweithwyr mudol yr arolwg yn ardaloedd y pedair astudiaeth achos (%)**

| | Sir Gaerfyrddin / Ceredigion | Y Trallwng | Betws -y-coed/ Llanrwst | Aberdaugledda u/ Hwlffordd |
|---|---|---|---|---|
| Pentref | 0 | 14 | 25 | 11 |
| Tref | 21 | 32 | 8 | 17 |
| Dinas | 79 | 54 | 67 | 72 |

Ym mhob un o ardaloedd yr astudiaeth achos roedd oddeutu hanner yr atebwyr mewn gwaith cyn gadael eu mamwlad, er bod y nifer hon yn cynyddu i 76% yn Aberdaugleddau/ Hwlffordd. Ym Metws-y-coed / Llanrwst a Sir Gaerfyrddin / Ceredigion y mae'r ganran uchaf o bobl a fu'n astudio gynt (y ddwy ardal â 32%). Nid oedd ond un o bob wyth atebwr wedi bod yn ddi-waith cyn symud i'r DU.

Mae llawer o weithwyr mudol wedi ennill llawer o gymwysterau. Mae mwy na thraean ohonynt yn raddedigion prifysgol - a llawer ohonynt â chymhwyster ôl-radd - tra bo mwy na'u hanner â chymhwyster galwedigaethol. Fodd bynnag, amrywia'r lefelau o gymwysterau gryn dipyn o ardal achos astudiaeth i ardal achos astudiaeth, a hynny efallai yn dangos y gwahaniaethau mewn oedran y gweithwyr mudol, yn ogystal â natur y gwaith (ffigur 3.4). Ym Metws-y-coed/Llanrwst myfyrwyr a phobl ifainc yw llawer o'r gweithwyr mudol sydd yn aml yn gweithio mewn swyddi dros dro heb sgiliau ym maes y diwydiant ymwelwyr er mwyn ennill peth arian cyn dychwelyd i'r brifysgol yng Ngwlad Pwyl. Yn Hwfforddd ac Aberdaugleddau roedd gan y rhan fwyaf o atebwyr (61%) gymhwyster galwedigaethol, sy'n adlewyrchu'r gwaith diwydiannol crefftus y maent yn ei wneud yno, fel trin craen neu weithio fel mecanydd arbenigol. Yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion y gwelir y ganran uchaf o atebwyr â chymwysterau ôl-radd (36%), sydd efallai'n adlewyrchu'r farchnad waith leol. Nid oedd gan yr un atebwr yn y Trallwng gymhwyster ôl-radd, ond roedd gan bron dwy ran o dair ohonynt gymhwyster galwedigaethol, sydd eto'n dangos cynifer o swyddi â sgiliau a gwaith ffatri a geir yn yr ardal.





Pan holwyd pam y penderfynwyd gadael y famwlad dywedodd bron pob atebwr mai am resymau ariannol y gwnaethpwyd hynny: "incwm bychan yng Ngwlad Pwyl" neu "brinder gwaith gwerthfawr pleserus", diweithdra neu "does dim gwaith yng Ngwlad Pwyl", "i ennill arian" neu "am well incwm", a dywedodd rhai eraill mai "diffyg rhagolygon" ac ar gyfer graddedigion nid oedd swyddi proffesiynol gartref a "dim dyfodol". Roedd rhai am "fynd ar antur a dysgu am ddiwylliant newydd", a dywedodd rhai eu bod am ddysgu Saesneg.

Bu bron pob un atebwr yn byw yn eu mamwlad cyn symud i'r DU, ond roedd dros draean wedi cael profiad blaenorol o fyw dramor, gan gynnwys trwch yr atebwyr ym Metws-y-coed a Llanrwst. Ymhlith y gwledydd y buont yn byw ynddynt yr oedd Slofacia, Croatia, Denmarc, yr Iseldiroedd, Iwerddon, yr Eidal, De Affrica ac, yn fwyaf cyffredin, yr Almaen. Bu dwy ran o dair ohonynt ar wyliau tu allan i'w mamwlad. Fodd bynnag, nid oedd ond un o bob deg atebwr wedi bod ym Mhrydain o'r blaen cyn symud yma, ac roedd hyd yn oed lai wedi ymweld â Chymru o'r blaen. Nid oedd dros draean ohonynt erioed wedi gadael eu mamwlad, gan gynnwys trwch yr atebwyr yn Aberdaugleddau a Hwlffordd.


### 3.4 Cysylltiadau â Chymru

Er nad oedd trwch mawr y gweithwyr mudol yn yr arolwg wedi ymweld â Chymru cyn symud yma, roedd gan lawer ohonynt gysylltiadau â Chymru, yn enwedig cyfeillion a theulu a oedd eisoes wedi mudo. Roedd tri o bob pum atebwr yn adnabod rhywun yn y DU eisoes; fynychaf un neu ddau o bobl, er bod rhai pobl a oedd yn byw yn ardal y Trallwng yn adnabod grwpiau o fwy na deg o bobl. Roedd hanner yr atebwyr eisoes yn adnabod rhywun yng Nghymru, ond roedd cryn wrthgyferbyniad rhwng gweithwyr mudol yn Sir Gaerfyrddin / Ceredigion a'r Trallwng ar un llaw, a Betws-y-coed/ Llanrwst ac Aberdaugleddau/ Hwlffordd ar y llaw arall (ffigur 3.5). Gwelir y gwrthgyferbyniad hwn orau yn y rhesymau dros symud i'r ardal dan sylw. Yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion a'r Trallwng yn ogystal, roedd ymuno â chyfeillion a theulu yn o'r prif resymau a nodwyd, ond ar y llaw arall ym Metws-y-coed/Llanrwst ac Aberdaugleddau/ Hwlffordd roedd symud i'r ardal oherwydd y swydd yn fwyfwy pwysig.



Ffigur 3.5: Gweithwyr Mudol yn adnabod rhywun yng Nghymru cyn symud

Daeth ychydig dros hanner y gweithwyr mudol yn yr arolwg â rhywun gyda hwy o'u mamwlad, er nad oedd yn wir yn achos yr atebwyr yn Aberdaugleddau/ Hwlffordd lle'r oedd y rhan fwyaf wedi teithio ar eu pennau eu hunain. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd atebwyr wedi teithio gyda chyfaill, sef partner, cyfaill neu berthynas fynychaf; ond roedd rhai wedi teithio mewn grwpiau mawr o bedwar neu bump. Yn yr un modd, roedd ychydig dros hanner y gweithwyr mudol yn yr arolwg wedi dweud eu bod wedi annog cyfeillion a theulu i ddod i fyw a gweithio yng Nghymru, er bod hyn yn fwy cyffredin ymhlith atebwyr yn Sir Gaerfyrddin/ Ceredigion a'r Trallwng nag ymhlith atebwyr yn Aberdaugleddau/Hwlffordd a Betws-y-coed/Llanrwst (ffigur 3.6).




Ffigur 3.6: Gweithwyr Mudol yn yr arolwg a anogodd gyfeillion neu deulu i ddod i Gymru

## 3.5 Cysylltiadau â'r Famwlad

Cedwir cysylltiadau cryf gan weithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru o wledydd A8 â'u hardal enedigol. Roedd dwy ran o dair wedi dychwelyd i'w mamwlad ar ymweliad ers symud i Gymru, ac i rai roedd yr ymweliadau hyn yn bur gyson a rhai ohonynt yn mynd adref bob pedwar mis. Roedd llai o atebwyr yn Aberdaugleddau a Hwlffordd wedi ymweld â'u mamwlad, ond gellir esbonio hyn drwy ddweud bod canran uwch o atebwyr yn


yr ardal hon wedi cyrraedd yn bur ddiweddar yn ystod y chwe mis diwethaf nag atebwyr yn ardaloedd eraill yr astudiaethau achos. Mynd i weld cyfeillion a theulu oedd y prif reswm am ddychwelyd adref, ond mewn rhai achosion cyfunwyd hyn â chwilio am waith. Ni ddywedodd yr un gweithiwr mudol yn yr arolwg eu bod wedi mynd adref yn unswydd i chwilio am waith.

Roedd bron hanner yr atebwyr yn danfon arian adref, er bod hyn eto yn amrywio o ardal i ardal ac roedd llawer llai o bobl a oedd yn byw ym Metws-y-coed/Llanrwst yn danfon arian adref, efallai oherwydd eu bod yn ifanc heb bobl eraill yn ddibynnol arnynt. Amrywiai gwerth y taliadau, ond gallai fod hyd at draean neu ragor o werth eu henillion.




Rhoddodd y gweithwyr mudol yn yr arolwg amrywiaeth o atebion pan y'u holwyd am ba hyd y byddent yn aros yn y DU, ond dywedodd y mwyafrif y byddent yn dychwelyd i'w mamwlad ar ryw adeg. Ni ddywedodd ond un rhan o bump o'r atebwyr eu bod yn bwriadu aros ym Mhrydain naill ai am gyfnod amhenodol neu am fwy na phum mlynedd. Dywedodd chwarter ohonynt y byddent yn aros am gyfnod rhwng blwyddyn a phum mlynedd; tra bo mwy na thraean ohonynt yn bwriadu aros am flwyddyn neu lai. Fodd bynnag, ceir cryn amrywiaeth ym mwriadau'r gweithwyr mudol o ardal astudiaeth achos i ardal astudiaeth achos, ac roedd atebwyr yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion a'r Trallwng yn fwy tebygol o fwriadu aros yma'n hwyach. Ar y llaw arall, roedd dros hanner yr atebwyr ym Metws-y-coed a Llanrwst yn bwriadu aros yng Nghymru am flwyddyn neu lai (ffigur 3.8).

Ffigur 3.8: Hyd Disgwyliedig y Cyfnod ym Mhrydain




Roedd tair rhan o bump o atebwyr a oedd yn bwriadu aros yn y DU yn bwriadu aros yn eu hardal bresennol, ond fe geir peth amrywio o ardal i ardal. Roedd trwch mawr yr atebwyr yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion a'r Trallwng yn bwriadu aros yn yr ardal, ond ar y llaw arall nid oedd traean o atebwyr Aberdaugleddau a Hwlffordd yn bwriadu gwneud felly.

## 3.6 Crynodeb

Cymhleth ac amrywiol yw patrymau mudo o Ganol a Dwyrain Ewrop i gefn gwlad Cymru. Roedd y mwyafrif o weithwyr mudol yn yr arolwg wedi penderfynu mudo am resymau ariannol yn bennaf, ac roedd adleoli i gefn gwlad Cymru yn bennaf oherwydd y swyddi a gynigiwyd iddynt. Fodd bynnag, wrth i'r don gyntaf o fewnfudwyr ymgartrefu, mae ymuno â chyfeillion a theulu yng Nghymru wedi tyfu'n rheswm i fewnfudwyr diweddarach. Er mai ychydig iawn o atebwyr a oedd wedi ymweld â Chymru cyn symud yma, roedd oddeutu eu hanner yn adnabod rhywun a oedd eisoes yn byw yng Nghymru. Roedd oddeutu hanner y gweithwyr mudol yn yr arolwg wedi mewnfudo'n uniongyrchol i Gymru o'u mamwlad, ac roedd eu hanner wedi bod yn byw mewn rhywle arall yn y DU - am gyfnodau rhwng ychydig o nosweithiau ac ychydig o flynyddoedd.

Cedwir cysylltiadau cryf â'r famwlad gan y mwyafrif o weithwyr mudol. Roedd eu hanner wedi teithio i'r DU yng nghwmni o leiaf un cyfaill o'r famwlad, fel arfer partner, cyfaill neu berthynas. Roedd dwy ran o dair o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg wedi dychwelyd adref ar ymweliad ers symud i Gymru, bob mis yn achos un ohonynt. Roedd bron hanner yr atebwyr yn danfon arian adref at eu teulu. Roedd mwyafrif y gweithwyr mudol yn yr arolwg yn bwriadu dychwelyd i'w mamwlad ar ryw adeg, er bod cryn amrywio yn y cyfnod yr oeddent yn bwriadu aros yn y DU. Nid oedd ond un o bob pump yn yr arolwg wedi dweud eu bod yn bwriadu aros yn y DU am gyfnod amhenodol neu am o leiaf bum mlynedd.

Amrywiol yw'r gweithlu mudol yng nghefn gwlad Cymru o ran eu cymhellion, llwybrau mudo, a bwriadau. Er bod profiadau mewnfudwyr yn amrywio gellir enwi tri grwp yn fras:

***'Myfyrwyr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd':*** Pobl ifainc sy'n cymryd swyddi dros dro yn y DU cyn

astudio yn eu mamwlad neu yn ystod y cyfnod hwnnw neu ar ôl hynny. Ceir tuedd i'r mewnfudwyr hyn weithio mewn swyddi tymhorol yn arbennig mewn diwydiannau fel lletygarwch ac arlwyo mewn ardaloedd fel Betws-y-coed. Mae eu rhesymau dros ddod i Gymru yn cynnwys yn gyffredinol gyfuniad o resymau gan gynnwys ennill arian, dysgu Saesneg ac antur. Mae llawer yn disgwyl dychwelyd i'w mamwlad ymhen blwyddyn.

***'Gweithwyr gwadd':*** Gweithwyr sydd wedi mudo i'r DU yn bennaf er mwyn ennill arian ac sy'n dewis eu lle byw yn bennaf ar sail argaeledd gwaith. Mae llawer ohonynt wedi byw mewn lle arall yn y DU, ac yn symud er mwyn achub ar gyfleon gwaith. At ei gilydd mae'n fwriad ganddynt ddychwelyd i'w mamwlad, ond disgwyliant fel arfer i aros yn y DU am hyd at ychydig o flynyddoedd. Maent yn poeni llai, fodd bynnag, am aros yn eu hardal bresennol. Mae llawer o 'weithwyr gwadd' yn danfon arian adref. Yn yr astudiaeth hon, y gweithwyr mudol a oedd debycaf i 'weithwyr gwadd' oedd y rhai yn ardal Aberdaugleddau a Hwlffordd.

***'Gwladychwyr':*** Mewnfudwyr sy'n bwriadu aros ym Mhrydain am gyfnod hir, fel arfer yn y lle maent yn byw ar hyn o bryd. Er bod rhesymau economaidd yn rhan o'u cymhelliad i fudo, mae ymuno â chyfeillion a theulu yn bwysig yn ogystal. Roedd llawer o aelodau'r grwp hwn yn adnabod pobl yng Nghymru cyn symud, ac roedd ymuno â chyfeillion a theulu yn ystyriaeth bwysig wrth ddewis lle i fyw yng Nghymru, ynghyd â chyfleon am waith a dewis lle i fyw. Yn yr astudiaeth hon, y gweithwyr mudol a oedd debycaf i 'wladychwyr' oedd y rheini yn ardaloedd Sir Gaerfyrddin/ Ceredigion a'r Trallwng.

Dadansoddir gwahanol brofiadau a nodweddion y tri grwp hyn mewn perthynas â gwaith a thai yn y bennod nesaf.

# PENNOD 4: AMODAU A PHROFIADAU GWAITH A THAI

## 4.1 Cyflwyniad


Yn y bennod hon trafodir profiadau gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru wrth chwilio am waith a thai, a'r amodau byw a gwaith sydd ganddynt. Ystyrir y math o waith sydd gan weithwyr mudol o wledydd A8, y dull a'r modd y dônt o hyd i waith, a'u hamodau gwaith gan gynnwys yr oriau a weithir a'r cyflog. Trafodir profiadau gweithwyr mudol wrth chwilio am lety, safon tai, a phris y rhent a delir yn ogystal. Deillia'r bennod hon yn bennaf o'r dadansoddiad a wnaethpwyd o'r arolwg ymhlith gweithwyr mudol yn y pedair astudiaeth achos ym Metws-y-coed/Llanrwst, gogledd Sir Gaerfyrddin/Ceredigion, Aberdaugleddau/Hwlffordd, a'r Trallwng; yn ogystal â data'r WRS a thystiolaeth o gyfweliadau ag asiantaethau allweddol sy'n rhoi cymorth i weithwyr mudol.


## 4.2 Dod o Hyd i Waith

Roedd yr holl weithwyr mudol namyn un a holwyd mewn gwaith pan gynhaliwyd yr arolwg, tra bo un rhan o wyth ohonynt yn ddi-waith yn eu mamwlad cyn gadael. Roedd yr unig atebwr a oedd yn ddi-waith newydd ymddiswyddo ac wrthi'n chwilio am swydd newydd. Roedd gan un o bob wyth atebwr fwy nag un swydd.

Yn gyffredinol, ni chafodd y gweithwyr mudol yn yr arolwg fawr o drafferth wrth ddod o hyd i waith yng Nghymru. Roedd bron tri chwarter ohonynt wedi dod o hyd i waith cyn iddynt symud i gefn gwlad Cymru, neu wedi dod o hyd i waith cyn pen ychydig o ddyddiau. Roedd dros eu hanner wedi dod o hyd i waith pan oeddent yn eu mamwlad, er bod hyn yn amrywio o ardal astudiaeth achos i ardal astudiaeth achos ac roedd atebwyr yng ngogledd Sir Gaerfyrddin/Ceredigion yn fwy tebygol o ddod o hyd i waith ar ôl cyrraedd Cymru (ffigur 4.1). Roedd un rhan o bump o'r atebwyr wedi talu rhywun i ddod o hyd i waith iddynt yn y DU, gan gynnwys dros draean o atebwyr ym Metws-y-coed/Llanrwst, ac efallai bod hyn yn dangos cynifer o fyfyrwyr a phobl ifainc a oedd yn cymryd gwaith dros dro mewn gwestai ac mewn arlwyo yn yr ardal hon. Mae chwarter y gweithwyr mudol yn yr arolwg yn gyflogedig trwy asiantaeth.


Nid yr un yw dod o hyd i waith, fodd bynnag, â dod o hyd i waith mewn maes cymwys neu ddewis faes. Roedd bron hanner y gweithwyr mudol yn yr arolwg yn dweud eu bod wedi cael anhawster i ddod o hyd i'w dewis swydd yn yr ardal lle'r oeddent yn byw. Roedd hyn yn aml yn fwy gwir yn achos Sir Gaerfyrddin/Ceredigion a'r Trallwng nag ym Metws-y-coed/Llanrwst ac Aberdaugleddau/ Hwlffordd (ffigur 4.2). Fel y trafodir ymhellach isod arweiniodd yr anhawster hwn i ddod o hyd i waith yn eu dewis faes at rwystro llawer o weithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru rhag gweithio mewn swyddi y cawsant hyfforddiant neu gymwysterau ar eu cyfer.




## 4.3 Math o Waith

Ceir cryn amrywiaeth yn y diwydiannau lle y caiff gweithwyr mudol waith o astudiaeth achos i astudiaeth achos, ond mae'r rhain yn cyfateb yn fras i batrwm cofrestriadau'r WRS ar gyfer y siroedd dan sylw, fel y'u trafodir ym mhennod 2. Mae'r crynodiad mwyaf ym Metws-y-coed a Llanrwst, lle yr oedd pob un o'r gweithwyr namyn un yn gweithio yn y sector arlwyo neu letygarwch. Gweithgynhyrchu yw'r prif ddiwydiant mwyaf sy'n cynnig gwaith i atebwyr yn y Trallwng, a'r diwydiant adeiladu a thir i atebwyr yn Aberdaugleddau a Hwlffordd. Roedd y mwyafrif o atebwyr yng ngogledd Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn gweithio mewn lletygarwch ac arlwyo, ond yn wahanol i'r ardaloedd astudiaethau achos eraill, roedd yr atebwyr yn gweithio yn y sector iechyd ac mewn gwasanaethau gweinyddol, busnes a rheoli (ffigur 4.3).




Ffigur 4.3: Sectorau gwaith yr atebwyr

Mae'r union swyddi yn amrywio o ardal astudiaeth i ardal astudiaeth, ond y gwaith pennaf yw gwaith prosesu, gwaith ffatri a thrin peiriannau a swyddi elfennol, sydd eto yn adlewyrchu data'r WRS fel y'i trafodwyd ym mhennod 2. Y prif swyddi a nodir amlaf yn yr arolwg gan atebwyr yw cogydd, gweinydd(es) a chynorthwyydd arlwyo, bob un ohonynt yn y sector lletygarwch ac arlwyo, gweithwyr prosesu mewn ffatri (yn enwedig ymhlith atebwyr yn y Trallwng). Yn y sector adeiladu a thir, roedd yr atebwyr yn cynnwys gweithwyr craen a phedwar mecanydd yn Aberdaugleddau a Hwlffordd, ac asiwr a garddwr yn y Trallwng. Ymhlith y swyddi eraill a gofnodwyd y mae glanhawr, cynorthwyydd domestig, gwarchodwr ty, gyrrwr, paciwr, a chigydd neu weithiwr mewn lladd-dy. Ymhlith yr ychydig iawn o swyddi proffesiynol neu grefftus a gofnodwyd y mae trydanwr, swyddog technegol a deintydd.

Ceir gweithwyr allweddol ym mhob ardal, gan gynnwys ysbyty yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion sy'n cyflogi gweithwyr cynorthwyol, ffatri prosesu bwyd yn y Trallwng, gwesty ym Metws-y-coed/Llanrwst, a chwmni adeiladu o Wlad Belg yn Aberdaugleddau/Hwlffordd. Roedd gan bron bob un o'r atebwyr weithle unigol rheolaidd, a gymerai fel arfer 15 munud o gerdded o'u llety i'w gyrraedd. Roedd gan nifer o atebwyr yn ardal Aberdaugleddau a Hwlffordd drafnidiaeth a ddarparwyd gan eu cyflogwr, tra bo llawer o atebwyr a weithiai mewn gwestai ym Metws-y-coed/Llanrwst lety yn eu gweithle.

Roedd oddeutu hanner yr atebwyr yn dweud nad y swydd hon oedd yr un yr oeddent wedi derbyn hyfforddiant neu gymwysterau ar ei chyfer ond roedd gweithwyr mudol yn Aberdaugleddau/Hwlffordd a'r Trallwng yn fwy tebygol o fod mewn swydd gymwys (ffigur 4.4). Roedd bron hanner yr atebwyr nad oedd yn gweithio yn eu priod faes wedi ceisio dod o hyd i swydd fwy cymwys.

Ffigur 4.4: Atebwyr â swydd ym maes eu hyfforddiant/cymwysterau





## 4.4 Amodau Gwaith

Gall amodau gwaith gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru amrywio'n fawr, ond gan fod cynifer o swyddi isel eu statws mae'n syndod bod llawer yn gweithio oriau hir am gyfraddau cymharol isel o dâl (gweler hefyd Winckler, 2007). Roedd bron hanner y gweithwyr mudol yn yr arolwg yn gweithio mwy na 40 awr yr wythnos, gan gynnwys un rhan o wyth sy'n gweithio mwy na 60 awr yr wythnos (ffigur 4.5). Mae'r rhifau hyn dipyn uwch na'r hyn a awgrymwyd gan ddata'r WRS, sy'n dangos nad oes ond 12% o weithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru yn gweithio mwy na 40 awr yr wythnos, ac nid oes ond 1% yn gweithio mwy na 60 awr yr wythnos. Er y gall anghysonder godi yn sampl bychan yr arolwg, mae'n debygol bod rhyw ychydig o achosion o beidio ag adrodd nifer yr oriau gwaith yn llawn wrth y WRS ac/neu fod llawer o'r gweithwyr mudol wedi cael oriau ychwanegol ar ôl cofrestru ar y WRS ar gychwyn eu cyflogaeth.

Mae'n arwyddocaol bod 80% o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg yn tybio bod eu horiau gwaith yn rhai arferol ar gyfer eu gweithle. Atebwyr yn Aberdaugleddau a Hwlffordd oedd y mwyaf tebygol i weithio oriau hir, ac roedd traean ohonynt yn gweithio mwy na 60 awr yr wythnos, ac yn fwyaf tebygol i ystyried eu horiau gwaith yn anarferol ar gyfer eu gweithle.

Ffigur 4.5: Oriau gwaith yr wythnos ar gyfartaledd atebwyr




O ddadansoddi data'r WRS gwelir bod gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru ar gyfartaledd yn derbyn llai o dâl na'r sawl sy'n gweithio mewn rhannau eraill o Gymru (tabl 4.1). Nid oedd ond 7.5% o weithwyr mudol a gofrestrwyd ar y WRS yng nghefn gwlad Cymru yn ennill mwy na £6 yr awr pan y'u cofrestrwyd, o'u cymharu â 15.8% o weithwyr mudol yng Nghymru yn gyffredinol. Roedd bron naw o bob deg gweithiwr mudol yng nghefn gwlad Cymru yn ennill rhwng £4.50 a £5.99 yr awr, oddeutu lefel yr isafswm cyflog.

| Cyfradd tâl yr awr | Cymru Wledig | Ardaloedd Cymysg | Cymoedd | Ardaloedd Trefol | Cymru Gyfan |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan £2.99 | 0.4 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.3 |
| £3.00 - £3.79 | 0.1 | 0.1 | 0.1 | 0.0 | 0.1 |
| £3.80 - £4.49 | 2.9 | 0.5 | 2.4 | 1.0 | 1.7 |
| £4.50 - £5.99 | 89.1 | 72.5 | 83.3 | 80.2 | 82.0 |
| £6.00 - £7.99 | 5.4 | 24.2 | 11.2 | 17.0 | 13.8 |
| £8.00 - £9.99 | 1.7 | 1.4 | 1.2 | 0.9 | 1.3 |
| £10.00 - £11.99 | 0.0 | 0.4 | 0.4 | 0.1 | 0.2 |
| Dros £12.00 | 0.4 | 0.5 | 1.1 | 0.6 | 0.5 |


Tabl 4.1: Cyfradd tâl yr awr i weithwyr mudol yng Nghymru (%), yn ôl data'r WRS.

Fodd bynnag, ceir cryn amrywio mewn cyfraddau tâl o fewn Cymru wledig, fel y dengys holiadur yr arolwg. At ei gilydd, roedd dwy ran o dair o'r atebwyr a gâi eu talu yn ôl yr awr yn derbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol (sef £5.35 yr awr pan gynhaliwyd yr arolwg). Roedd llai na chwarter ohonynt yn ennill mwy na £6 yr awr (ffigur 4.6). Ym Metws-y-coed/Llanrwst y cofnodwyd y lefelau isaf o dâl, sy'n nodweddiadol o'r gwaith elfennol mewn lletygarwch ac arlwyo yn yr ardal honno. Roedd bron hanner yr atebwyr ym Metws-y-coed/Llanrwst yn derbyn pecyn cyflog wythnosol o lai na £200.





Nid oedd ond deg atebwr yn dweud eu bod yn derbyn cyflog yn fisol. O blith y rhain, roedd chwech ohonynt yn ennill mwy na £1000 y mis, gan gynnwys tri a oedd yn ennill mwy na £2000 y mis. Ymhlith yr atebwyr yn Aberdaugleddau a Hwlffordd y cafwyd y cyfraddau uchaf o dâl, gan gynnwys un atebwr a oedd yn ennill £3000 y mis.

At ei gilydd, roedd dwy ran o dair o'r atebwyr yn yr arolwg yn teimlo bod eu tâl yn arferol ar gyfer pobl a oedd yn gwneud gwaith tebyg yn eu gweithle, er bod mwyafrif yr atebwyr yn Aberdaugleddau/Hwlffordd ac yn y Trallwng yn anghytuno (ffigur 4.7).





Roedd didyniadau o dâl bron traean o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg, fel arfer am lety a/neu fwyd. Roedd yr arfer hon fwyaf cyffredin yn ardal Betws-y-coed a Llanrwst lle'r oedd didyniadau am lety ac weithiau am fwyd o'u cyflog gan 80% o atebwyr (ffigur 4.8). Dywedodd y mwyafrif iddynt gael eu hysbysu o'r didyniadau hyn pan y'u penodwyd, ond fe geir peth tystiolaeth o ddidyniadau cudd na chaiff eu cofnodi'n amlwg ac na chaiff o bosibl eu gweld gan yr unigolion dan sylw. Er enghraifft, er bod 58% o atebwyr yn Aberdaugleddau a Hwlffordd yn dweud nad oes ganddynt ddidyniadau, dywed 53% ohonynt nad oes ganddynt gostau llety a bod eu cyflogwr yn darparu'r llety ar eu cyfer.




Dywedodd traean o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg nad oedd ganddynt gytundeb gwaith, gan gynnwys hanner yr atebwyr yn ardal Betws-y-coed/Llanrwst (ffigur 4.8). Ni ddywedodd ond dau atebwr eu bod yn aelodau o undeb llafur (un yn Aberdaugleddau/ Hwlffordd a'r llall ym Metws-y-coed/Llanrwst). Mae hyn yn cyd-fynd ag asesiad TUC Cymru a ddywed fod llai na 3% o weithwyr mudol yn aelodau o undebau llafur, a bod diffyg dealltwriaeth o swyddogaeth undebau llafur ymhlith y gweithlu mudol (Winckler, 2007).


Ffigur 4.9: Mathau o lety rhent i atebwyr yr arolwg




## 4.5 Amodau Byw


Mae pob un o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg mewn llety rhent neu glwm, a'r math o lety sydd ganddynt yn rhannu'n gyfartal yn fras rhwng fflatiau a thai. Ni ddywedodd ond tri eu bod yn byw mewn hostel. At ei gilydd, roedd hanner y gweithwyr mudol yn yr arolwg yn rhentu lle oddi wrth landlord preifat ac roedd ychydig dros draean yn rhentu lle oddi wrth eu cyflogwr. Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau sylweddol o ardal astudiaeth achos i ardal astudiaeth achos (ffigur 4.9). Er bod mwyafrif o'r atebwyr yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion a'r Trallwng yn rhentu oddi wrth landlordiaid preifat, roedd wyth o bob deg atebwr ym Metws-y-coed/Llanrwst a bron hanner yr atebwyr yn Aberdaugleddau/Hwlffordd yn rhentu oddi wrth y cyflogwr.

Ffigur 4.10: Mathau o lety rhent i atebwyr yr arolwg





Roedd llai nag un o bob deg gweithiwr mudol yn yr arolwg wedi dweud eu bod wedi cael anhawster wrth ddod o hyd i lety (bob un ohonynt yn ardaloedd Sir Gaerfyrddin/Ceredigion a'r

Trallwng), ac ni ddywedodd ond un ei fod wedi treulio noswaith yng Nghymru heb lety. Roedd ychydig lai na hanner yr atebwyr wedi derbyn cymorth oddi wrth eu cyflogwr wrth chwilio am lety, ond roedd hyn yn fwy tebygol o ddigwydd yn ardaloedd Betws-y-coed ac Aberdaugleddau nag yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion a'r Trallwng (ffigur 4.10). Mae'r gwahaniaeth rhwng gwahanol ardaloedd yr astudiaethau achos fwy na thebyg yn dangos y nifer uwch o weithwyr mudol a symudodd i'r ardal ar ôl cael swydd yn y naill ardal na'r llall a'r mathau o swyddi dan sylw.





Dywedodd un o bob saith gweithiwr mudol yn yr arolwg eu bod wedi cael trafferth â safon eu llety, a dywedodd dau o bob pump fod eu llety presennol yn waeth na'u llety blaenorol yn eu mamwlad. Roedd y farn hon yn amrywio o ardal astudiaeth achos i ardal astudiaeth achos, a dywedodd dros hanner yr atebwyr ym Metws-y-coed/Llanrwst a'r Trallwng fod eu llety yng Nghymru o waeth ansawdd nag yn eu mamwlad (ffigur 4.11). Ar y llaw arall, roedd wyth o bob deg atebwr yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion o'r farn fod eu llety yng Nghymru cystal neu'n well na'r llety a oedd ganddynt yn eu mamwlad.




Ceir cryn amrywio ym maint y rhent a delir gan weithwyr mudol am lety. Talai tri o bob pump o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg yn wythnosol am eu llety ac o blith y rhain talai dwy ran o dair ohonynt lai na £60 yr wythnos. At hynny, dywedodd hanner yr atebwyr yn Aberdaugleddau a Hwlffordd fod eu llety yn rhad ac am ddim yn rhoddedig gan eu cyflogwr. Ar y llaw arall, ymhlith y ddwy ran o bump o atebwyr a dalai'n fisol am eu llety roedd 70% ohonynt yn talu mwy na £300 y mis, gan gynnwys bron chwarter ohonynt a dalai fwy na £500 y mis. O gyfuno'r ffigyrau hyn gellir amcangyfrif bod dwy ran o dair o'r gweithwyr mudol yn talu llai nag oddeutu £300 y mis am lety, a bod un rhan o chwech ohonynt yn talu rhwng £300 a £400 y mis, ac un rhan o chwech ohonynt yn talu mwy na £400 y mis.

Fodd bynnag, fe geir amrywio mawr mewn prisiau llety yn y pedair ardal dan sylw, ac roedd y costau tai cymedrig yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion ac Aberdaugleddau/Hwlffordd ddwywaith cymaint ag eiddo Betws-y-coeed/Llanrwst a'r Trallwng (ffigur 4.12). O gymharu costau tai a lefelau cyflog gwelir bod y gweithiwr mudol yng nghefn gwlad Cymru yn gwario oddeutu un rhan o bump o'i enillion gros ar lety.





Roedd y mwyafrif o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg yn byw ar eu pennau eu hunain, neu yng nghwmni un neu ddau arall (ffigur 4.13). Mae hyn mewn cyferbyniad â'r syniad poblogaidd fod gweithwyr mudol yn byw mewn grwpiau mawr mewn tai gorlawn. Fodd bynnag, mae tai gorlawn o'r fath yn bod, hyd yn oed os nad yw'n gyffredin. Dywedodd un o bob wyth atebwr eu bod yn rhannu llety â phump neu ragor o bobl, a dangoswyd ty i un o'n hymchwilwyr a ddefnyddiwyd gan weithwyr mudol yn y Trallwng lle'r oedd y trigolion yn cysgu ym mhob ystafell gan gynnwys y gegin. Roedd dros hanner o'r atebwyr yn byw gyda phartner neu gydag aelod o'r teulu, er bod y rhif hwn yn llawer is yn ardal Aberdaugleddau/Hwlffordd. Dywedodd tri o bob pump o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg eu bod yn byw gyda gweithwyr eraill o'r un gweithle, ac roedd bron traean yn byw gyda gweithwyr eraill o'r un gweithle *yn unig*. Y rhai mwyaf tebygol o fyw gyda chyd-weithwyr oedd atebwyr yn Aberdaugleddau/Hwlffordd a Betws-y-coed/Llanrwst, sy'n dangos pa mor bwysig oedd cyflogwyr wrth ddarparu llety i weithwyr mudol yn yr ardaloedd hyn (ffigur 4.14).

Ffigur 4.14: Nifer y bobl yn byw ar aelwyd fel arfer




Ffigur 4.15




**4.6 Crynodeb**

Gall amodau gwaith a byw gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru amrywio'n fawr, ond daw patrwm amlwg i'r golwg sy'n dangos bod y mwyafrif o weithwyr mudol mewn gwaith isel ei dâl a'i statws ac mewn llety o safon isel. Ni chafodd y gweithwyr mudol yn yr arolwg fawr o drafferth wrth ddod o hyd i waith yng Nghymru ac roedd bron tri chwarter ohonynt wedi cael gwaith yng Nghymru *cyn*gadael eu mamwlad. Fodd bynnag, dywedodd atebwyr eu bod wedi cael trafferth i ddod o hyd i'w dewis swydd yng nghefn gwlad Cymru, ac roedd y mwyafrif mewn swyddi isel eu statws mewn ffatri neu mewn swyddi elfennol heb y sgiliau galwedigaethol neu broffesiynol yr oeddent wedi derbyn hyfforddiant ar eu cyfer.

Mae llawer o weithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru yn gweithio oriau hir am ychydig dâl. Roedd bron hanner o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg yn gwetihio mwy na 40 awr yr wythnos, a châi'r mwyafrif eu talu ar lefel yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol. Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr atebwyr yn tybio bod eu horiau gwaith a'u cyfraddau tâl yn ddisgwyliedig i weithwyr a wnâi swydd debyg yn yr un gweithle.

Dywedodd canran sylweddol o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg eu bod yn byw mewn llety a ddarparwyd gan eu cyflogwr, yn enwedig yn ardaloedd Betws-y-coed/Llanrwst ac Aberdaugleddau/Hwlffordd. Roedd mwyafrif y gweithwyr mudol heb lety a ddarparwyd gan gyflogwr yn byw mewn tai rhent preifat. Amrywia maint a delir am lety gryn dipyn, a chaiff nifer fechan o weithwyr mudol lety clwm am ddim oddi wrth eu cyflogwr, ac mae nifer fechan hefyd yn talu dros £400 y mis am lety. Dywedodd un o bob saith eu bod wedi cael problemau â safon eu llety, ac roedd dau o bob pump o'r farn fod eu llety yng Nghymru o waeth safon na'u llety yn eu mamwlad.


Ceir gwahaniaethau yn yr ymatebion a'r profiadau hyn rhwng pedair ardal yr astudiaethau achos, ac adlewyrchant i raddau y gwahanol fathau o weithwyr mudol a ddisgrifir yn y bennnod flaenorol. Mae gweithwyr mudol sydd debycaf i 'fyfyrwyr yn cymryd blwyddyn i ffwrdd', er enghraifft, yn gyflogedig gan amlaf mewn gwaith elfennol fel cynorthwyydd cegin, morwyn neu weinydd mewn ystafell, gweinydd(es), staff y bar, cynorthwyydd mewn siop neu gynorthwyydd domestig, yn aml yn y sector lletygarwch neu arlwyo. Fel arfer, maent wedi cael gwaith yng Nghymru, yn aml drwy asiantaeth, cyn gadael eu mamwlad. Telir yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol i'r mwyafrif ac mae'n bosibl eu bod yn gweithio oriau hir, ac nid oes gan lawer ohonynt gytundeb gwaith ffurfiol. Mae llawer o'r gweithwyr mudol a berthyn i'r grwp hwn yn byw mewn llety a ddarparwyd gan eu cyflogwr a chaiff didyniadau am lety a/neu fwyd eu tynnu o'u cyflog.

Mae'r gweithwyr mudol sydd debycaf i 'weithwyr gwadd' fynychaf yn gweithio yn y sectorau gweithgynhyrchu ac adeiladu a diwydiannau tir, fel arfer mewn swyddi elfennol ond weithiau mewn swyddi crefftus. Tueddant i weithio oriau hir, yn aml am ychydig o dâl, ond gall gweithwyr gwadd mewn swyddi â mwy o sgiliau neu swyddi technegol dderbyn cyflog sydd gryn dipyn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer gweithwyr mudol. Mae llawer o weithwyr mudol yn y grwp hwn yn byw mewn llety a ddarparwyd gan eu cyflogwr, weithiau yn rhad ac am ddim.


Ymhlith y gweithwyr mudol sydd debycaf i 'wladychwyr' y mae'r amrywiaeth mwyaf o brofiadau gwaith ac amodau byw. O'u cymharu â 'myfyrwyr yn cymryd blwyddyn i ffwrdd' a 'gweithwyr gwadd' maent yn fwy tebygol o ddod o hyd i waith ar ôl cyrraedd Cymru ac yn llai tebygol o fod mewn swydd y maent wedi derbyn hyfforddiant neu gymwysterau ar ei chyfer. Maent yn fwy tebygol, fodd bynnag, i gredu bod eu horiau gwaith a'u cyflog yn cyfateb i eiddo eu cyd-weithwyr. Tuedda gweithwyr mudol yn y grwp hwn fyw mewn tai rhent preifat, yn aml gyda phartner neu aelod o'r teulu.

Er gwaethaf y tâl cymharol isel a'r oriau hir a'r amodau byw gwael a gofnodwyd gan y gweithwyr mudol yn yr arolwg, roedd mwyafrif mawr ohonynt (87%) yn dweud eu bod yn well eu byd yn ariannol na phan oeddent yn byw yn eu mamwlad ac mae hyn yn gyffredinol wir ar draws ardaloedd yr astudiaethau achos, er bod 16% ohonynt ym Metws-y-coed a Llanrwst yn credu eu bod yn waeth yn ariannol na chynt (ffigur 4.15). At hynny, dywedodd chwech o bob deg gweithiwr mudol yn yr arolwg fod eu safon byw yn well yng Nghymru na gartref, er bod hyn yn amrywio mwy ar draws ardaloedd yr astudiaethau achos, ac ym Metws-y-coed/Llanrwst dywedodd 50% ohonynt eu bod yn waeth eu byd, a dywedodd 48% ohonynt yn y Trallwng fod eu safon byw yn waeth nag a fu neu'r un peth â chynt (ffigur 4.16).

Ffigur 4.16




Ffigur 4.17




# PENNOD 5: YMDODDI I'R GYMUNED

## 5.1 Cyflwyniad

Yn y bennod hon trafodir sut yr ymdodda gweithwyr mudol i gymunedau lleol yng nghefn gwlad Cymru a sut yr ymgysylltant â hwy. Trafodir tystiolaeth sy'n ymwneud â rhwydweithiau lleol gweithwyr lleol a'u cyswllt cymdeithasol â thrigolion lleol yn ogystal â'u barn a'u canfyddiad o'r gymuned leol. Yn y bennod hon trafodir defnydd gweithwyr mudol o wasanaethau cyhoeddus a'u profiadau o gamwahaniaethu. Mae'r drafodaeth hon yn ddibynnol ar ddata meintiol ac ansoddol holiadur yr arolwg a wnaed ymhlith gweithwyr mudol ym mhedair ardal yr astudiaethau achos, yn ogystal â'r dystiolaeth a gasglwyd o gyfweliadau â chynrychiolwyr y prif asiantaethau sy'n rhoi cymorth i weithwyr mudol.

## 5.2 Ymdoddi i'r Gymuned Leol


Ymddengys mai cyfyng fu'r ymdoddi i'r gymuned leol yng nghefn gwlad Cymru ymhlith gweithwyr mudol, a chyfyngedig fu'r graddau y buont yn ymwneud â gweithgareddau lleol a phrin fu'r cyswllt cymdeithasol lleol rhwng gweithwyr mudol a thrigolion lleol. Nid oedd ond un o bob deg gweithiwr mudol yn yr arolwg yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ffurfiol yn eu hardaloedd lleol, gan gynnwys dosbarthiadau erobeg yn y dwr, pêl-droed, nofio, clwb ffilmiau neu gampfa. Dywedodd canran uwch fod ganddynt gyswllt lleol â phobl leol ar lefel fwy anffurfiol. Dywedodd bron hanner yr atebwyr eu bod yn cymdeithasu â 'phobl leol', a olygai yfed mewn tafarnau lleol yn y rhan fwyaf o achosion. Roedd cymdeithasu rhwng gweithwyr mudol a thrigolion lleol yn fwy cyffredin yn ardaloedd Sir Gaerfyrddin/Ceredigion ac Aberdaugleddau Hwlffordd nag yn y Trallwng neu Fetws-y-coed/Llanrwst (ffigur 5.1).




Er hynny, credai llawer o weithwyr mudol eu bod wedi ymdoddi i raddau i'r gymuned leol. Pan y'u holwyd a oeddent yn cytuno â'r datganiad "*Rwy'n adnabod llawer o bobl yn fy ardal leol*" dywedodd 57% o atebwyr yr arolwg eu bod yn cytuno'n gryf neu'n tueddu i gytuno ag ef, ac ni ddywedodd ond 21% eu bod yn anghytuno'n gryf neu'n tueddu i anghytuno ag ef. Mae'n bosibl bod atebwyr wrth ateb y cwestiwn hwn yn cyfrif gweithwyr mudol eraill yn yr ardal leol yn ogystal â'r trigolion lleol hir-dymor, yn enwedig o gofio mai prin oedd yr atebwyr a ddywedodd fod ganddynt lawer o gyfeillion ymhlith y trigolion lleol. Er hynny, dywedodd tri o bob pum atebwr eu bod yn siarad o leiaf unwaith yr wythnos â'u cymydogion, a chan atebwyr ym Metws-y-coed/Llanrwst a'r Trallwng yr oedd y cyswllt yn

fwyaf rheolaidd (ffigur 5.2). Dengys y dystiolaeth felly mai cysylltiadau niferus ond arwynebol sydd gan weithwyr mudol â thrigolion lleol. Mae'r mwyafrif o'r gweithwyr mudol yn adnabod pobl yn y gymuned leol, ond nid oes fawr o sylwedd na dyfnder i'r cysylltiadau hyn yn gyffredinol.

Ffigur 5.2: Amlder y cyfathrebu rhwng atebwyr yr arolwg a chymdogion





Cynigir un o'r ychydig gyfleon allweddol i ymdoddi fwyfwy i'r gymuned leol gan yr Eglwys Gatholig. Mae hanner yr gweithwyr mudol yn yr arolwg yn Gatholigion mewn gair a gweithred, er bod y nifer yn is ym Metws-y-coed/Llanrwst lle mae'r gweithwyr mudol yn iau. O blith y Catholigion mewn gair a gweithred dywedodd tair rhan o bump ohonynt eu bod yn mynychu'r Offeren yng Nghymru. Wrth i'r gweithlu o Wlad Pwyl yng nghefn gwlad Cymru gynyddu mae'r Eglwys Gatholig wedi cwrdd â'r galw i raddau drwy gynnig gwasanaethau rheolaidd mewn Pwyleg yn eglwysi'r ardaloedd, fynychaf unwaith pob pythefnos neu bob mis. Fodd bynnag, dywedodd llawer o'r Catholigion mewn gair a gweithred eu bod hefyd yn mynychu'r Offeren yn Saesneg, ac felly'n creu cyfle i gwrdd ac ymwneud â phobl leol. Ceir peth tystiolaeth yng nghanlyniadau'r arolwg sy'n dangos bod y gweithwyr mudol sy'n mynychu'r Offeren Gatholig yng Nghymru yn tueddu i fod â mwy o gyfeillion lleol ac yn tueddu i deimlo'n fwy cadarnhaol am y gymuned leol.

## 5.3 Rhwydweithiau Lleol

Gan fod y rhwydweithiau cymdeithasol rhwng gweithwyr mudol a thrigolion lleol yn tueddu i fod yn wan, tuedda rhwydweithiau cymdeithasol gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru i ganolbwyntio ar boblogaeth y gweithwyr mudol eu hunain. Fel y trafodir ym mhennod 3 roedd bron hanner y gweithwyr mudol yn yr arolwg wedi teithio i Gymru gyda chyfaill, partner neu berthynas, ac roedd oddeutu chwarter ohonynt wedi symud i'r ardal lle'r oeddent bellach yn byw er mwyn ymuno â chyfeillion neu deulu. Felly, mae gan weithwyr mudol rwydwaith cymdeithasol yng Nghymru sy'n estyniad o'u cysylltiadau teuluol a'u cyfeillion gartref. Fodd bynnag, ceir lleiafrif pwysig sydd heb gyfeillion neu ychydig iawn ohonynt yng nghefn gwlad Cymru. Dywedodd oddeutu un rhan o chwech o atebwyr yr arolwg nad oedd ganddynt yr un cyfaill da neu aelod o'r teulu a oedd yn byw o fewn 15 cilomedr, a dywedodd un o bob saith nad oedd ganddynt ond un neu ddau gyfaill da neu berthynas yn yr ardal (ffigur 5.3). Roedd y gweithwyr mudol a oedd wedi ymgartrefu'n hwy yn y Trallwng a Sir Gaerfyrddin a Cheredigion yn

fwy tebygol o feddu ar gylch ehangach o gyfeillion. Er enghraifft dywedodd traean o'r atebwyr yn y Trallwng fod ganddynt 30 o gyfeillion da a theulu yn yr ardal, a dywedodd dwy ran o dair o atebwyr Sir Gaerfyrddin/Ceredigion fod ganddynt o leiaf bump, a hyd at 24, o gyfeillion da yn yr ardal. Ceir darlun i'r gwrthwyneb ym Metws-y-coed lle'r oedd gan ddau o bob pum atebwr lai na thri chyfaill da yn yr ardal, ac yn Aberdaugleddau a Hwlffordd lle y dywedodd hanner yr atebwyr nad oedd ganddynt gyfeillion da na theulu yn yr ardal o gwbl.


Ffigur 5.3: Nifer y cyfeillion da neu deulu sy'n byw o fewn 15 cilomedr




Dywedodd bron traean o'r atebwyr fod eu holl gyfeillion yng Nghymru o'r un genedl â hwy, o'u cymharu ag un rhan o chwech o'r bobl a ddywedodd mai llai na hanner eu cyfeillion oedd y bobl o'r un genedl â hwy. Ar y llaw arall, nid oedd ond dau atebwr a fynnodd mai pobl leol oedd y rhan fwyaf o'u cyfeillion. Mae maint y sampl yn rhy fychan i greu casgliadau pendant am ardaloedd yr astudiaethau achos, ond mae'r atebion yn awgrymu mai gweithwyr mudol ym Metws-y-coed/Llanrwst ac Aberdaugleddau/Hwlffordd sydd fwyaf tebygol o gael cyfeillion yn yr ardal leol o'r un genedl yn unig; a gweithwyr mudol yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion sydd fwyaf tebygol o gael cyfeillion o blith trigolion lleol.

O blith yr atebion a gafwyd i'r cwestiwn, dywedodd 45% ohonynt eu bod wedi teimlo bod rhwystr rhag ffurfio cyfeillgarwch ers cyrraedd y DU. Enwyd iaith fel rhwystr gan dri chwarter o'r rhain, ac roedd oriau gwaith, arian a hiliaeth yn bethau eraill a enwyd mewn nifer fechan o atebion. Er bod iaith wedi'i henwi fel rhwystr rhag creu cyfeillgarwch roedd hanner y gweithwyr mudol yn yr arolwg yn dweud eu bod yn medru Saesneg yn weddol o dda neu'n rhugl. Dim ond un o bob chwech a ddywedodd na fedrai Saesneg o gwbl neu ond ambell air. Roedd yn ddiddorol nodi bod cryn amrywiaeth o ardal i ardal yn y modd yr oedd yr atebwyr yn asesu eu meistrolaeth ar Saesneg. Er bod tri chwarter o'r atebwyr yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion a Betws-y-coed/Llanrwst yn dweud eu bod yn medru Saesneg yn rhugl neu'n eithaf da; roedd dros hanner yr atebwyr yn y Trallwng yn dweud na fedrent ond ambell frawddeg yn Saesneg; a dywedodd hanner yr atebwyr yn Aberdaugleddau/Hwlffordd na fedrent ond ambell air (ffigur 5.4).

Ffigur 5.4: Sgiliau Iaith Saesneg ymhlith atebwyr yr arolwg





Dywedodd tri chwarter o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg eu bod yn ceisio gwella eu Saesneg wrth fyw yng Nghymru. Roedd bron hanner ohonynt wedi dysgu peth Cymraeg, gan gynnwys naw o bob deg atebwr yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion. Yn y rhan fwyaf o achosion nid oedd hyn ond yn fater o godi ambell air o Gymraeg, ond dywedodd bron hanner yr atebwyr yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion eu bod yn gwybod brawddegau syml yn Gymraeg, a dywedodd tri atebwr yn ardal Sir Gaerfyrddin/Ceredigion eu bod yn medru cyfathrebu yn y Gymraeg yn 'eithaf da'.

Yn ogystal â rhwystrau ieithyddol, roedd llawer o weithwyr mudol o dan anfantais wrth ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol ehangach oherwydd eu llety. Dywedodd naw o bob deg gweithiwr mudol yn yr arolwg eu bod yn byw gyda phobl o'r un genedl, ac eithrio yn ardal Betws-y-coed a Llanrwst lle'r oedd y ganran yn disgyn i saith o bob deg. Roedd bron tri chwarter o'r atebwyr yn byw gyda *phobl o'r un genedl yn unig*, gan gynnwys 57% o'r atebwyr yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion, 77% yn y Trallwng, 80% ym Metws-y-coed a Llanrwst ac 85% yn Aberdaugleddau a Hwlffordd. Ar y llaw arall, nid oedd ond un o bob deg ateb yn dweud eu bod yn rhannu llety gyda Phrydeiniwr, er bod y rhif hwn yn uwch ym Metws-y-coed/Llanrwst lle nad oedd yn anghyffredin i weithwyr mudol fyw yn y gwesty lle'r oeddent yn gweithio.


## 5.4 Canfyddiadau o'r Gymuned Leol

Fodd bynnag, nid yw'r cysylltiadau cymdeithasol ymddangosiadol gyfyng rhwng gweithwyr mudol a phobl leol yn ardaloedd yr astudiaethau achos wedi creu dieithrwch neu unigrwydd i'r gweithlu mudol. Roedd llawer o'r gweithwyr mudol mewn gwirionedd wedi dweud pethau cadarnhaol iawn am y gymuned leol ac roedd llawer ohonynt yn eu hystyried eu hunain yn aelodau o'r gymuned leol. Cytunodd pedwar o bob deg gweithiwr mudol yn yr arolwg â'r datganiad eu bod yn teimlo ymdeimlad cryf o gymdeithas â phobl eraill yn y gymuned leol o'u cymharu â thri o bob deg a anghytunodd. Dim ond yn ardal Sir Gaerfyrddin/Ceredigion yr oedd mwy yn anghytuno na chytuno â'r datganiad hwn (ffigur 5.5).





Tueddai'r gweithwyr mudol yn yr arolwg i deimlo bod modd ymddiried mewn pobl yn y gymuned leol, a'u bod yn gofalu am ei gilydd, a dywedodd dros hanner yr atebwyr eu bod yn cytuno â'r datganiadau hyn. Unwaith eto, cafwyd atebion mwy cadarnhaol ym Metws-y-coed/Llanrwst, y Trallwng ac Aberdaugleddau/Hwlffordd nag yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion (ffigurau 5.6 a 5.7), er y dylid dweud mai lleiafrif yn unig yn Aberdaugleddau/Hwlffordd a atebodd y cwestiynau hyn, sydd o bosibl yn dangos diffyg gwybodaeth am y gymuned leol.


Ar y llaw arall, ni ddywedodd ond un o bob wyth gweithiwr mudol yn yr arolwg eu bod yn teimlo'n unig lle'r oeddent yn byw, ac anghytuno â'r datganiad hwn a wnaeth tri chwarater ohonynt. Fodd bynnag, roedd peth amrywio o ardal i ardal, wrth i dros un rhan o bump o atebwyr Betws-y-coed/Llanrwst ddweud eu bod yn teimlo'n unig, o bosibl oherwydd bod maint y gymuned yn llai neu'r duedd ymhlith llawer o'r gweithwyr mudol yn yr ardal hon i fyw ar eu pennau eu hunain mewn llety clwm yn hytrach na rhannu fflatiau neu dai (ffigur 5.8).



Ffigur 5.7: Mae pobl yn fy ardal yn edrych ar ôl ei gilydd





Ffigur 5.8: Gallaf deimlo'n unig lle'r wyf yn byw





Er bod y dystiolaeth uchod yn dangos bod llawer o weithwyr mudol ag ymdeimlad â'r gymuned leol lle maent yn gweithio, mae mwy ag ymdeimlad â'u cyd-weithwyr. Cytunodd hanner y gweithwyr mudol yn yr arolwg eu bod ag ymdeimlad cryf o gymuned â'u cyd-weithwyr, o'u cymharu â llai na thraean a anghytunodd. Yn drech na hynny yw'r ymdeimlad o berthyn â'r gweithwyr mudol eraill, wrth i hanner ohonynt gytuno â'r datganiad eu bod ag ymdeimlad o berthyn i gymuned â gweithwyr mudol eraill, a llai na chwarter yn anghytuno.

Mae hyn yn cyfateb i'r hyn a ddywedodd un cynrychiolydd asiantaeth mai "cymunedau hunanddibynnol sydd gan weithwyr mudol yn y rhan fwyaf o achosion", er bod gwahaniaethau yn yr atebion o ardal i ardal, wrth i atebion ym Metws-y-coed/Llanrwst fod yn llawer mwy tebygol o gytuno eu bod ag ymdeimlad o berthyn â gweithwyr mudol eraill nag eraill mewn ardaloedd eraill yn yr astudiaethau achos (ffigur 5.9).




## 5.5 Camwahaniaethu a Throsedd

Un o'r prif esgyrn cynnen ynghylch y cynnydd a fu yn nifer y gweithwyr mudol o wledydd A8 yng nghefn gwlad Cymru yw'r canfyddiad mai gweithwyr mudol a oedd o bosibl yn cyflawni troseddau ac yn eu dioddef yn ogystal. Cymysg, fodd bynnag, yw tystiolaeth ein harolwg. Dywedodd chwarter y gweithwyr mudol yn yr arolwg eu bod wedi cael profiad o gamwahaniaethu ers cyrraedd Cymru, sydd yn ganran annerbyniol o uchel ond sydd hefyd yn ganran lai na'r disgwyl. Atebwyr yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion a'r Trallwng a oedd fwyaf tebygol o gael profiad o gamwahaniaethu yn eu herbyn, wrth i fwy na thraean o atebwyr yn y ddwy ardal ddweud ei fod wedi digwydd iddynt. Ar y llaw arall, ni ddywedodd un o'r 16 ateb i'r cwestiwn hwn yn Aberdaugleddau/Hwlffordd eu bod wedi cael y fath brofiad, er bod llawer ohonynt wedi byw yng Nghymru am gyfnod llawer byrrach (ffigur 5.10).




Yn y rhan fwyaf o achosion, ar ffurf cam-drin geiriol y bu'r camwahaniaethu, er bod achosion o fwlio ac aflonyddu rhywiol mewn rhai achosion:


*Cam-drin geiriol yn y gwaith (M, 18-24, Aberystwyth)*

*Anghymeradwyaeth gyffredinol ymhlith pobl leol, mae fy mhlant yn yr ysgol yn cael eu bwlio (G, 35-44, Caerfyrddin)*
*Aflonyddu rhywiol yn y gweithle (M, 25-34, Aberystwyth)*
*Mae pobl yn dweud pethau anghwrtais am ddieithriaid - ein bod yn oresgynwyr (M, 25-34, Ceredigion)*
*Cael ein galw'n bethau sarhaus (G, 25-34, Y Trallwng)*
*Mae fy rheolwr yn gwir gasáu Pwyliaid (G, 35-44, Y Trallwng)*
*Clywaf yn aml mai lladron a meddwon yw Pwyliaid (G, 18-24, Y Trallwng)*
*Camdriniaeth yn y gweithle (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Camdriniaeth yn y gweithle, tâl isel (G, 18-24, Betws-y-coed)*

Ni ddywedodd ond un o bob pum atebwr eu bod yn gwybod am weithwyr mudol eraill a oedd wedi dioddef o gamwahaniaethu. Gan fod y rhif hwn yn is na'r nifer a ddywedodd eu bod wedi dioddef o gamwahaniaethu eu hunain ymddengys mai ychydig iawn o drafod ar hyn a geir ymhlith gweithwyr mudol, heb sôn am hysbysu'r heddlu neu awdurdodau eraill. Roedd bron hanner yr atebwyr a ddywedodd eu bod yn gwybod am rai eraill a oedd wedi dioddef o gamwahaniaethu yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion. Y mathau o ddigwyddiadau a oedd dan sylw oedd cam-drin geiriol, bwlio a thriniaeth ymddangosiadol annheg yn y gwaith:

*Plentyn cyfaill yn cael ei fwlio gan bobl leol (G, 25-34, Ceredigion)*
*Camwahniaethu yn y gwaith oherwydd nad oedd yn siaradwr Cymraeg (G, 25-34, Ceredigion)*
*Ymosodiad geiriol (M, 25-34, Aberystwyth)*
*Mae pobl sy'n methu siarad Saesneg wastad yn cael gwaith trymach i'w wneud (M, 25-34, Y Trallwng)*

Ni ddywedodd un o'r mewnfudwyr eu bod wedi dioddef ymosodiad corfforol neu drosedd difrifol, ac er gwaethaf y profiadau o gamwahaniaethu a cham-drin geiriol, cytunodd wyth o bob deg eu bod yn teimlo'n ddiogel lle'r oeddent yn byw. Roedd atebwyr yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion a Betws-y-coed/Llanrwst yn arbennig o debygol o deimlo'n ddiogel, ond roedd dros chwarter o atebwyr y Trallwng yn anghytuno (ffigur 5.11). Dim ond lleiafrif o'r sawl a fu'n cymryd rhan yn Aberdaugleddau/Hwlffordd a atebodd y cwestiwn hwn.



Ffigur 5.11: Teimlaf yn ddiogel lle'r wyf yn byw

Cyfeiriodd dau o'r cynrychiolwyr asiantaethol mewn cyfweliadau at droseddau difrifol y bu gweithwyr mudol yn rhan ohonynt, ond at ei gilydd roedd y sawl a gyfwelwyd yn awyddus i bwysleisio bod digwyddiadau o'r fath yn brin iawn a heb fod yn fwy cyffredin nag ymhlith y boblogaeth yn gyffredinol. Fodd bynnag, roedd peth cydnabyddiaeth fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gysylltiedig â gweithwyr mudol yn enwedig mewn ardaloedd lle'r oedd llawer o ddynion ifainc sengl, fel y disgrifiwyd un ardal yn ne-orllewin Cymru:

> "Mae'r mwyafrif mawr ohonynt yn ddynion ifainc sengl neu'n ddynion sydd heb fod oddi wrth eu gwragedd am lawer o flynyddoedd ac maent yn yfed dros ben llestri ac yn achosi trafferth ... Ydyn, maen nhw'n meddwi drwy'r amser. Dywedodd Spar eu bod yn gwerthu 30 potel o fodca y dydd yno - dim ond un siop yw hynny."
>
> Heddwas

Yn yr achos arbennig hwn roedd problemau yn ymwneud â meddwdod cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi cyfrannu at densiynau yn y gymuned leol, wrth i weithwyr o Wlad Pwyl gael eu gwahardd o bob tafarn namyn un yn y gymuned. Fodd bynnag, roedd cynifer o weithwyr mudol ifainc gwryw mewn un gymuned yn anghyffredin yng nghefn gwlad Cymru, lle mae'r gweithlu mudol fel arfer gryn dipyn yn fwy cymysg o ran rhyw ac oedran, fel y trafodir ym mhennod 2. Er hynny, mae perygl wrth i straeon o'r fath ymledu fod enw drwg yn cael ei roi i bob gweithiwr mudol. Dywedodd un arall mewn cyfweliad fod canfyddiad cyhoeddus fod gweithwyr mudol yn ymwneud â throseddau, ond bod y canfyddiad hwn yn anghywir:

> "Tybir yno y bydd y gweithwyr mudol yn cyflawni troseddau pan mewn gwirionedd maen nhw oherwydd bod gweddill y boblogaeth yn gwneud hynny hefyd. Ond efallai mai eu troseddau nhw yw yfed fodca oherwydd eu bod yn meddwl y gellwch yfed fodca ar y stryd. Efallai mai yfed a gyrru fydd ef oherwydd nad ydynt yn gwybod bod cyfraith yn erbyn yfed a gyrru. Wyddoch chi, mae'n wahanol iawn? Efallai bod yr hyn y maen nhw'n meddwl sydd yn mynd i ddigwydd iddynt yn wahanol iawn, wyddoch chi?"
>
> Cynrychiolydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol

Yn wir, dim ond chwarter y gweithwyr mudol yn yr arolwg a ddywedodd eu bod yn gwybod am gyfreithiau lleol wrth gyrraedd y wlad. Mae heddluoedd Cymru yn gwybod bod angen addysgu gweithwyr mudol ac maent wedi cychwyn rhoi mentrau cymunedol ar waith:

> "Rydym wrth gwrs yn cynnig arweiniad oherwydd bod yn rhaid i rywun sy'n dod i wlad newydd â gwahanol gyfreithiau ddeall y cyfreithiau hynny ac fe all hynny fod yn droseddau gyrru, neu gall fod yn droseddau eraill ac wedyn mae'n rhaid inni fel heddlu wneud yn siwr fod pobl yn gwybod ac yn deall beth yw'r gyfraith ar yr heol yn y DU fel yswiriant a threth."
>
> Cynrychiolydd yr Heddlu

Fodd bynnag, gall y mentrau hyn gael eu tanseilio trwy ddiffyg ymddiriedaeth gweithwyr mudol yn yr heddlu ar gyfrif yr enw drwg sydd gan yr heddlu yn eu mamwlad, a phwysleisiodd rhai mewn cyfweliadau ei bod yn bwysig bod cyflogwyr yn cynnig cymorth i gyflwyno hyn i'r newydd-ddyfodiaid o weithwyr mudol.

## 5.6 Defnydd o'r Gwasanaethau Lleol

Pryder cyffredin arall yw bod mwy o weithwyr mudol yn rhoi mwy o bwysau o bosibl ar wasanaethau cyhoeddus. Ceir nifer o agweddau allweddol ar y pryder hwn. Yn gyntaf, ceir pryder y gall mewnfudiad sydyn o weithwyr mudol i ardal roi pwysau gormodol ar wasanaethau lleol fel ysgolion a chanolfannau iechyd, yn enwedig mewn cymunedau bychain lle mae'r gwasanaethau yn llai nag a fu. Yn ôl adroddiad gan Gyngor Sir Caerfyrddin (2007) roedd disgyblion newydd o Ganol a Dwyrain Ewrop yn cael eu derbyn i ysgolion yn y sir bob wythnos. Roedd y rhan fwyaf o'r rhain yn Llanelli, er y tynnwyd sylw at Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair yng Nghaerfyrddin lle'r oedd 50% o'r gofrestr yn cynnwys disgyblion â Saesneg yn Iaith Ychwanegol. At ei gilydd, fodd bynnag, dim ond un rhan o wyth o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg a ddywedodd fod plant ganddynt yng Nghymru.

Yn ail, ceir pryder yn arbennig am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus i weithwyr mudol o du'r gofynion ieithyddol. Mae hyn yn ymwneud nid yn unig ag addysg, wrth i nifer o Awdurdodau Addysg Lleol gan gynnwys Sir Gaerfyrddin ddweud bod pwysau trwm arnynt o du cyllid i ddisgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol (Cyngor Sir Caerfyrddin, 2007; WLGA, 2007), ond hefyd wrth i awdurdodau lleol ddarparu gofal iechyd, polisïau a chyfathrebu. Mewn ardaloedd fel Conwy dywedwyd bod prinder o gyfieithwyr arbenigol (WLGA, 2007).

Yn drydydd, ceir pryder bod amodau gwaith a thai gweithwyr mudol yn golygu eu bod yn wynebu mwy o fygythiad o du damweiniau ac afiechydon,

ac felly yn creu gofynion arbennig i'r gwasanaeth iechyd:

> "Os oes gennych gangfeistri sy'n prynu tai rhes â dwy ystafell ar y llofft a dwy ar y llawr, tair ystafell wely a thri o bobl ym mhob ystafell, gan eu cyfnewid o sifft y bore i sifft y nos, bydd gennych y problemau i gyd, a'r holl fygythiadau i iechyd sy'n deillio o dai gorlawn... Mewn rhai lleoedd bydd gennych blant yno, gwresogi gwael, gorysmygu mewn lleoedd cyfyngedig, a'r holl broblemau sy'n gysylltiedig."
>
> Cynrychiolydd y Sector Iechyd

Mae'r sefyllfa a ddisgrifir yn y datganiad hwn, fodd bynnag, yn eithriadol ym mhrofiad y gweithiwr mudol yng nghefn gwlad Cymru, fel y nodir ym mhennod 4, ac nid oedd angen defnyddio gwasanaethau iechyd yng Nghymru ar fwyafrif y gweithwyr mudol yn yr arolwg, ac nid oedd ond un o bob deg wedi gorfod cysylltu â'r gwasanaethau brys.

Yn bedwerydd, ceir pryderon y caiff gweithwyr mudol drafferth i gael mynediad i wasanaethau cyhoeddus, ac nid oedd ond lleiafrif wedi cofrestru am wasanaethau iechyd. Yn ôl adroddiad i Gyngor Defnyddwyr Cymru, er enghraifft, dywedodd 40% o'r gweithwyr mudol a holwyd yng Nghymru nad oeddent yn gwybod pwy i'w holi am wasanaethaau cyhoeddus (WCC, 2007). Nid oedd ond hanner y gweithwyr mudol yn yr arolwg ar gyfer yr astudiaeth hon wedi cofrestru â Meddyg Teulu, ac nid oedd ond 4% wedi cofrestru â deintydd - er bod y rhifau diwethaf hyn yn codi cwestiwn mwy cyffredinol am fynediad i wasanaethau deintyddol yng nghefn gwlad Cymru. Roedd mwyafrif mawr o atebwyr yn ardaloedd Betws-y-coed/Llanrwst, Aberdaugleddau/ Hwlffordd a'r Trallwng heb gofrestru â Meddyg Teulu, er bod tri chwarter o'r atebwyr yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion wedi cofrestru. Cydnabyddir mai gwahaniaeth diwylliannol sy'n cyfrif am ddiffyg cofrestriadau â Meddyg Teulu ymhlith y gweithwyr mudol.

> "Mae gan Wlad Pwyl nodweddion arbennig oherwydd nad oes Practis Cyffredinol ar waith yno. Nid yw pobl o Wlad Pwyl yn gwybod am gofrestru â Meddyg Teulu."
>
> Cynrychiolydd y Sector Iechyd

Cydnabyddir hefyd yn y sector iechyd fod gangfeistri a chyflogwyr mewn rhai ardaloedd wrthi'n ddyfal yn rhwystro gweithwyr rhag cofrestru am wasanaethau iechyd:

> "Rydym hefyd wedi dod o hyd i nifer o ardaloedd lle yr anogir pobl beidio â chofrestru â Meddyg Teulu. Mewn rhai achosion honedig mae'n well gan gangfeistri nad yw pobl yn gwybod bod ganddynt hawl i gofrestru ac er mwyn iddynt gredu na ddylent fod ar gael i'r sefydliad rhag ofn iddynt gael eu danfon yn ôl."
>
> Cynrychiolydd y Sector Iechyd

Ond er gwaethaf y pryderon hyn ni ddywedodd ond 6% o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg eu bod wedi cael trafferth i gael mynediad i wasanaethau iechyd yng Nghymru, ac roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau i wella'r gwasanaethau iechyd yn ymwneud ag iaith.

Cyfyngir mynediad gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru i wasanaethau oherwydd eu dibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan nad oedd gan ond chwarter o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg eu car eu hunain yng Nghymru. Roedd nifer y perchnogion ceir ar ei huchaf ymhlith atebwyr Sir Gaerfyrddin/Ceredigion ac ar ei hisaf ymhlith atebwyr ym Metws-y-coed/Llanrwst, lle'r oedd llai nag un o bob deg â char. Roedd gan hyn oblygiadau i allu gweithwyr mudol gael gafael ar wasanaethau nad oedd ar gael yn y gymuned lle'r oeddent yn byw, gan gynnwys cyngor a gwasanaethau cymorth i fewnfudwyr o Ganol a Dwyrain Ewrop a siopau arbenigol. Dywedodd y mwyafrif o'r atebwyr eu bod yn defnyddio archfarchnadoedd lleol yn bennaf wrth siopa. I'r gweithwyr mudol a oedd gan mwyaf yn ifanc ym Metws-y-coed roedd y cyfuniad o ddiffyg trafnidiaeth gyhoeddus a'r prinder cyfleusterau yn y gymuned yn cyfrannu at brofiad negyddol o fyw yng nghefn gwlad Cymru, a dywedodd sawl un mai diflastod a diffyg adloniant oedd y pethau nad oddent yn eu hoffi am fyw yng nghefn gwlad Cymru:

> *Diflastod (G, 18-24, Betws-y-coed)*
>
> *Rhy dawel (G, 18-24, Betws-y-coed)*
>
> *Trafnidiaeth bysiau yn ofnadwy, dim siopau, dim bywyd (M, 18-24, Betws-y-coed)*

*Diffyg adloniant o unrhyw fath (M, 18-24, Betws-y-coed)*

*Diflastod, dim clwb, dim clybiau nos, na disgos i'w mynychu (G, 25-34, Betws-y-coed)*

## 5.7 Crynodeb

Cymhleth yw'r patrymau rhyngweithio a chyd-fyw rhwng gweithwyr mudol o wledydd A8 a chymunedau lleol yng nghefn gwlad Cymru. At ei gilydd, fe welir cysylltiadau niferus ond gwan rhwng gweithwyr mudol a chymunedau lleol yn y rhan fwyaf o gefn gwlad Cymru. Dywedodd llawer o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg eu bod yn adnabod pobl yn y gymuned leol, yn siarad â chymdogion yn rheolaidd, ac yn cymdeithasu â phobl leol. Fodd bynnag, prin oedd y rheiny a ystyriai fod pobl leol yn gyfeillion da iddynt, a phrin oedd y rhai a fynychai weithgareddau lleol, ac roedd y rhan fwyaf yn byw â phobl o'r un genedl ac yn dibynnu ar rwydweithiau cymdeithasol a oedd yn cynnwys pobl o'r un genedl yn bennaf. Nid yw'r safon isel o ryngweithio rhwng gweithwyr mudol a phobl leol yn unigryw i gefn gwlad Cymru a gwelwyd yr un patrwm ar waith mewn rhannau eraill o Brydain (Spencer et al., 2007). Fodd bynnag, mewn gwrthgyferbyniad â'r sefyllfa (a ddisgrifir gan Spencer et al.) yn Llundain a chanolfannau trefol eraill, lle y crewyd rhwydweithiau â thrigolion o wledydd eraill tu allan i Brydain gan weithwyr mudol, yng nghefn gwlad Cymru y Pwyliaid sydd fwyaf niferus o lawer ymhlith y gweithwyr mudol ac nid oes poblogaeth ryngwladol arall yno sy'n golygu bod profiad gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru i raddau helaeth heb fod yn amlddiwylliannol. At hynny, ceir lleiafrif bychan ond arwyddocaol o weithwyr mudol yn ein harolwg sydd yn unig dros ben, heb na chyfaill da na theulu yn y cyffiniau ac nad ydynt yn cymdeithasu o gwbl â phobl leol.

Er gwaethaf y prinder cysylltiadau cymdeithasol rhwng gweithwyr mudol a phobl leol, mae gan weithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru feddwl eithaf uchel o'r gymuned leol. Ystyriai llawer ohonynt eu bod yn rhan o'r gymuned â phobl leol, cyd-weithwyr a gweithwyr mudol eraill; credai'r mwyafrif fod pobl leol yn gofalu am bawb a bod modd ymddiried ynddynt; ac roedd y mwyafrif yn teimlo'n ddiogel lle'r oeddent yn byw. Ychydig iawn a deimlai'n unig. Dywedodd naw o bob deg gweithiwr mudol yn yr arolwg eu bod wedi cael croeso wrth fyw yng Nghymru.

Roedd y mwyafrif o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg heb ddioddef camwahaniaethu ers dod i Gymru, er bod un o bob pedwar o hyd yn rhif annerbyniol o uchel. Heblaw am ambell eithriad cyhoeddus iawn, ymddengys nad oes fawr o dystiolaeth bod tyndra neu rwyg difrifol rhwng trigolion lleol a gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru, ac ymddengys mai gwneud melin ac eglwys o bethau yw'r sôn am broblemau a achosir gan weithwyr mudol. Lle mae gweithwyr mudol wedi cael eu dal wrth droseddu mae hyn yn aml yn dangos anwybodaeth am y gyfraith leol, sy'n tanlinellu'r angen am well addysg. At hynny, ceir rhyw awgrym mewn rhai cymunedau bychain a mwy gwledig fod unrhyw dyndra rhwng pobl leol a gweithwyr mudol yn adlewyrchu drwgdybiaeth o 'ddieithriaid' yn gyffredinol ac nid o reidrwydd yn ymwneud â chenedl y gweithwyr mudol.

> "Mae'n rhaid ichi ddeall hefyd fod pobl yn ddrwgdybus o bobl sy'n dod o Fanceinion neu Lerpwl, felly mae'n beth mawr pan fo rhywun yn dod o Wlad Pwyl neu rywle ymhellach na Manceinion neu Lerpwl."
>
> Cynrychiolydd Asiantaeth

Ar yr un pryd, gwelir bod yr ymdeimlad o gymdeithas mewn pentrefi gwledig a threfi bychain yn beth cadarnhaol sy'n eu cynorthwyo i estyn croeso ac i gymathu gweithwyr mudol yn ddidramgwydd.

# PENNOD 6: CASGLIADAU

## 6.1 Cyflwyniad

Yn yr adroddiad hwn cyflwynir tystiolaeth sy'n cynnig darlun manylach a chynilach o fywydau a phrofiadau gweithwyr mudol o wledydd A8 yng nghefn gwlad Cymru na'r hyn a fu ar gael gynt. Mae'n anodd dod o hyd i rif manwl ar gyfer union nifer y gweithwyr mudol A8 sydd belllach yng nghefn gwlad Cymru, ond amcangyfrifir ar sail data'r Cynllun Cofrestru Gweithwyr a chofrestriadau Yswiriant Gwladol fod dros 10,000 o weithwyr mudol o wledydd A8 wedi dod i gefn gwlad Cymru ers mis Mai 2004 a bod oddeutu dwy ran o dair ohonynt fwy na thebyg yma o hyd, er bod cryn nifer o'r rhain yn byw mewn ardaloedd mwy trefol fel Llanelli. Er y bod y ffigyrau hyn yn isel o'u cymharu ag ardaloedd trefol Cymru ac â rhai ardaloedd gwledig yn Lloegr maent yn dangos bod cryn fewnfudo i gefn gwlad Cymru wedi digwydd mewn cyfnod cymharol fyr. Bu effaith y mewnfudo hwn yn ddwysach oherwydd bod y gweithlu mudol wedi'i grynhoi mewn cymunedau yng Nghymru wledig, yn enwedig cymunedau cymharol fychan fel Betws-y-coed a Llanybydder.

Pwyliaid yw bron wyth o bob deg gweithiwr mudol o'r gwledydd A8 yng nghefn gwlad Cymru, sy'n ganran lawer uwch o bobl o'r un genedl nag yn achos Cymru yn gyffredinol ac ar draws y DU. Dynion yw bron hanner y gweithwyr mudol yn y wlad, ond menywod yw mwyafrif y sawl sydd o dan 25 oed. Mae tri chwarter ohonynt rhwng 18 a 35 oed, ac er bod lleiafrif sylweddol â phartner yng Nghymru mae bron eu hanner yn eu disgrifio eu hunain yn sengl ac nid oes gan y mwyafrif ohonynt blant yng Nghymru nac yn eu mamwlad.

Rhesymau economaidd yw eu prif gymhelliad dros symud i Gymru, ond mae lleiafrif sylweddol yn mewnfudo bellach er mwyn ymuno â chyfeillion a theulu, a dywedodd dros hanner o'r gweithwyr mudol eu bod wedi annog cyfeillion ac aelodau o'r teulu i ddod i Gymru. O'r herwydd, lle'r oedd y rhan fwyaf o achosion yn dangos mai cefn gwlad Cymru oedd pen eu taith oherwydd dyna lle'r oedd y gwaith (a'r rhan fwyaf o'r mewnfudwyr heb wybod fawr ddim am Gymru ymlaen llaw), mae mwy a mwy bellach yn penderfynu mewnfudo ar sail gair da personol.

Fodd bynnag, dros dro yn unig y tybia'r mwyafrif o'r gweithwyr mudol y byddant yn aros yng nghefn gwlad Cymru. Dim ond un rhan o bump a ddywedodd eu bod yn bwriadu aros am fwy na phum mlynedd neu am gyfnod amhenodol, er nad oedd un o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg wedi dychwelyd adref er mwyn chwilio am waith yn unswydd. Roedd mwyafrif o'r gweithwyr mudol yn cynnal cysylltiadau cryf â'u mamwlad - a'r rhan fwyaf ohonynt wedi ymweld â'u cartref, a hynny sawl gwaith mewn ambell achos, ac roedd bron eu hanner yn danfon arian adref.

Mae'r mwyafrif o'r gweithwyr mudol yn gweithio mewn swyddi cymharol isel eu statws, yn enwedig mewn ffatrïoedd ac mewn prosesau cynhyrchu a swyddi elfennol. O'i gymharu ag ardaloedd gwledig eraill yn y DU bu gwaith amaethyddol yn llawer llai pwysig i weithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru, ond fe geir nifer fawr ohonynt yn gweithio mewn lletygarwch, arlwyo, gweithgynhyrchu, a gwasanaethau gweinyddol a busnes. Roedd oddeutu hanner y gweithwyr mudol yn gweithio mewn swyddi lle nad oeddent yn defnyddio eu hyfforddiant neu eu cymwysterau, er bod hyn yn amrywio o ardal i ardal ac o ddiwydiant i ddiwydiant yng Nghymru. Mae llawer o'r gweithwyr mudol yn gweithio oriau hir ac isel yw eu tâl yn gyffredinol, ac mae dwy ran o dair ohonynt yn ennill yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol, er bod ambell eithriad. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn teimlo eu bod yn cael eu trin yn wahanol i'w cyd-weithwyr o safbwynt oriau gwaith neu dâl. Roedd y mwyafrif o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg wedi cael swydd yng Nghymru cyn gadael eu mamwlad, a llawer ohonynt wedi defnyddio asiantaeth. Llwyddodd bron pob un o'r rhain i ddod o hyd i waith cyn pen ychydig o ddyddiau neu wythnos ar ôl cyrraedd Cymru hyd yn oed os nad oedd ganddynt swydd mewn golwg cyn gadael.

Roedd oddeutu traean o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg wedi cael llety drwy eu cyflogwr, ac roedd y llety mewn rhai achosion 'yn rhad ac am ddim' neu tynnwyd y rhent o'r pecyn cyflog yn uniongyrchol. Rhentu tai y mae'r holl weithwyr mudol yn yr arolwg, ac ni ddywedodd ond ambell un eu bod wedi cael trafferth i ddod o hyd i lety. Fodd bynnag, roedd dau o bob pump yn ystyried safon eu llety yng Nghymru yn waeth na'u llety blaenorol yn eu mamwlad.

At hynny, roedd cryn nifer o weithwyr mudol yn yr arolwg yn byw gyda phobl o'r un genedl yn unig, sydd ag oblygiadau i'r modd y gallant ymdoddi i'r gymdeithas leol. Y ffordd orau i ddisgrifio ymwneud gweithwyr mudol â chymunedau lleol yng Nghymru yw trwy ddweud bod nifer o gysylltiadau gwan wedi eu creu. Dywedodd llawer o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg eu bod yn adnabod pobl yn y gymuned leol, yn siarad â chymdogion yn rheolaidd, ac yn cymdeithasu â phobl leol. Fodd bynnag, prin oedd y rheiny a ystyriai fod pobl leol yn gyfeillion da iddynt, a phrin oedd y rhai a fynychai weithgareddau lleol, ac eithrio'r Offeren a fynychwyd gan draean ohonynt, yn ôl y gweithwyr mudol yn yr arolwg.

Er hynny, roedd llawer o'r gweithwyr mudol mewn gwirionedd wedi dweud pethau cadarnhaol iawn am y gymuned leol ac roedd llawer ohonynt yn eu hystyried eu hunain yn aelodau o'r gymuned leol. Credai'r mwyafrif fod pobl leol yn gofalu am bawb a bod modd ymddiried ynddynt; ac roedd y mwyafrif yn teimlo'n ddiogel lle'r oeddent yn byw. Ychydig iawn a deimlai'n unig. Dywedodd naw o bob deg gweithiwr mudol yn yr arolwg eu bod wedi cael croeso wrth fyw yng Nghymru, er bod un o bob pedwar wedi dweud eu bod wedi dioddef camwahaniaethu, fynychaf ar ffurf cam-drin geiriol.

## 6.2 Myfyrio ar Fyw yng Nghefn Gwlad Cymru

Wrth fyfyrio ar eu penderfyniad i symud i gefn gwlad Cymru gofynnwyd i weithwyr mudol bwyso a mesur yr agweddau cadarnhaol a negyddol ar eu profiad. Wrth enwi eu hoff bethau am fyw yng nghefn gwlad Cymru tynnodd nifer ohonynt sylw at eu swyddi diogel ac at eu safon byw uwch yn sgil hynny (gweler atodiad 1 am yr holl sylwadau):

> *Mae gen i swydd a gallaf fforddio beth sydd ei angen; mae'r safon byw yn destun llawenydd imi (G, 35-44, Caerfyrddin)*

> *Does dim arbennig am fy swydd ond mae'r cyflog yn ddigon da i brynu car inni gael bod yn annibynnol (M, 25-34, Aberystwyth)*

> *Mae swydd ar gael os ydych chi am weithio (G, 25-34, Aberystwyth)*

> *Mae llawer o gyfleon i newid lle'r ydych yn byw a gweithio (G, 25-34, Hwlffordd)*

> *Mae gan bobl arian ac mae hynny'n eu caniatáu i fyw bywyd heb bwysau. Dim problem i ddod o hyd i waith. (M, 18-25, Betws-y-coed)*

Mae'n ddiddorol nodi, er hynny, fod nifer wedi tynnu sylw at gyfeillgarwch pobl leol a'r croeso a gawsant oddi wrth gymunedau lleol:

> *Mae pobl yn gyfeillgar ac mae gwên ar eu hwynebau. Mae'r safon byw yn well. (G, 25-34, Llanbedr Pont Steffan)*

> *Digon o waith ar gael, a phobl gyfeillgar (G, 25-34, Aberystwyth)*

> *Mae pobl yma'n gyfeillgar a bob amser yn ceisio helpu (M, 18-24, Aberdaugleddau)*

> *Perthynas dda a chyfeillgar â Phwyliaid (G, 18-24, Betws-y-coed)*

> *Perthynas dda a chyfeillgar â Phwyliaid, agwedd dda (M, 18-24, Betws-y-coed)*

> *Rwy'n hoffi'r ffaith fod pobl hyn yn mynd i'r dafarn i'w mwynhau eu hunain (G, 18-24, Betws-y-coed)*

> *Goddefgarwch, dim brys ar neb (M, 18-24, Betws-y-coed)*

Soniodd grwp arall am y tirlun gwledig, gan gynnwys yr amgylchedd naturiol, tawelwch a bywyd heb frys. O'r safbwynt hwn, ailadrodd yr un math o farn am fywyd gwledig a gofnodwyd mewn ymchwil flaenorol i fewnfudwyr domestig i gymunedau gwledig a gafwyd (Cloke et al., 1997; Halfacree, 1995):

> *Mae pobl leol yn neis, rwy'n hoffi pensaernïaeth a'r amgylchedd naturiol yng Nghymru (G, 45-54, Y Trallwng)*

> *Lle neis a phrydferth, tawel braf, pobl gyfeillgar (G, 25-34, Aberystwyth)*

> *Tawelwch a chefn gwlad (G, 25-34, Y Trallwng)*

*Ymddengys fod bywyd yng Nghymru yn dawelach ac â llai o bwysau (M, 25-34, Y Trallwng)*

*Rwy'n hoff o'r ffordd o fyw dawel; tirlun prydferth o gwmpas Betws-y-coed, mynyddoedd Cymru (M, 25-34, Betws-y-coed)*

*Pobl braf, tirlun braf, safon byw dda (G, 18-24, Betws-y-coed)*

Yn groes i'r farn gyffredin, ni chrybwyllodd ond un ateb fudd-dalidau'r wlad, gan ddweud bod llywodraeth y DU wedi rhoi cymorth i'w deulu a'i blant.

Er bod y mwyafrif o'r atebwyr yn yr arolwg wedi dweud pethau cadarnhaol am fyw yng nghefn gwlad Cymru, roedd lleiafrif bychan o un o bob deg wedi dweud nad oes "dim byd" yr oeddent yn ei hoffi am gefn gwlad Cymru. At hynny, tynnodd yr atebwyr a welodd agweddau cadarnhaol ar fywyd yng nghefn gwlad Cymru sylw at bethau negyddol yn ogystal. Mewn rhai achosion, hiraeth a oedd arnynt, er enghraifft, wrth fethu bara o Wlad Pwyl. Tynnodd rhai sylw at y tywydd, gan gwyno ei bod yn oer a gwlyb, a soniodd rhai eraill am ba mor ddrud oedd eu llety. Dim ond lleiafrif bychan a ddywedodd mai diffyg goddefgarwch a drwgdybiaeth pobl leol oedd y pethau nad oeddent yn eu hoffi, ac roedd y rhain gan mwyaf yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion:

*CCTV ym mhob man!!! Does gan bobl ddim croeso fel y Pwyliaid, ac nid ydynt yn agored iddo ychwaith; maent bob amser yn ddrwgdybus (G, 25-34, Ceredigion)*

*Does neb ein heisiau ni yma fel cenedl; dyw pobl ddim yn ein derbyn ni, ac maen nhw'n gwneud inni deimlo fel estroniaid (G, 35-44, Caerfyrddin)*

*Does dim digon o wybodaeth am ddiwylliant ac arferion Gwlad Pwyl ar gael i bobl leol (M, 25-34, Caerfyrddin)*

Roedd yr agweddau negyddol, yn amlach na pheidio, yn ymwneud â gwahaniaethau diwylliannol. Yn fwyaf penodol, dywedodd nifer nad oeddent yn hoffi'r diffyg disgyblaeth honedig yn niwylliant Cymru a'r problemau a godai wrth yfed alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol:

*Cenedl feddw (M, 25-34, Aberystwyth)*

*Mae pobl yn yfed gormod o alcohol (G, 25-34, Aberystwyth)*

*Gall nos Wener a nos Sadwrn fod yn swnllyd iawn weithiau, a cheir ymladd hyd yn oed rhwng pobl leol a rhai mewnfudwyr (ofn pobl o Wlad Pwyl). Gall fod yn beryglus ar y stryd. (G, 45-54, Y Trallwng)*

*Mae pobl Prydain weithiau'n aflednais - diwylliant, glendid personol ac ymddygiad wrth y ford (G, 18-24, Y Trallwng)*

*Y ffordd y mae pobl leol yn meddwl, arferion, ffordd o feddwl pobl (G, 25-34, Hwlffordd)*

*Mae pobl ifainc yn anghwrtais a chwrs (M, 18-24, Aberdaugleddau)*

*Diffyg disgyblaeth (G, 25-34, Aberdaugleddau)*

*Ymddengys nad oes gan bobl ifainc ddim oll i'w wneud ond lolian ar y strydoedd (G, 25-34, Betws-y-coed)*

*Treulia rhai pobl eu holl amser hamdden mewn tafarnau - dim bywyd teuluol (M, 18-25, Betws-y-coed)*

Dywedodd nifer, fodd bynnag, fod yr un problemau o oryfed ac ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn digwydd yn y gymuned Bwylaidd, a thynnwyd sylw ganddynt at rai o'u cyd-weithwyr mudol fel agweddau wrth nodi'r pethau nad oeddent yn eu hoffi am fyw yng nghefn gwlad Cymru:

*Gormod o Bwyliaid (G, 18-24, Y Trallwng)*

*Nifer go fawr o Bwyliaid sydd wedi gadael Gwlad Pwyl oherwydd eu trafferthion â'r gyfraith yno (M, 25-34, Y Trallwng)*

*Rhai pobl o darddiad Pwylaidd, weithiau oherwydd eu bod wedi goryfed maent yn ymladd ac yn creu helynt (M, 18-24, Y Trallwng)*

Agwedd ymarferol sydd gan y mwyafrif o weithwyr mudol tuag at eu safle yng nghefn gwlad Cymru. Maent yn cydnabod eu bod yn gwneud swyddi sy'n isel eu tâl ac yn aml yn waith caled, ac fel arfer o statws is na'r swyddi y maent wedi derbyn hyfforddiant ar eu cyfer yn eu mamwlad. Pan y'u holwyd pa beth fu cyfraniad eu pobl at fywyd yng nghefn gwlad Cymru, dywedodd llawer ohonynt eu bod yn llafur rhad, er bod nifer wedi mynegi hyn fel cyfraniad cadarnhaol yn sgil eu hagwedd gydwybodol tuag at waith.

*Pobl sy'n gweithio'n galed, nad yw'n poeni gormod am y math o swydd, rydym yn agored i bobl eraill ac yn gwrtais, ac yn coginio bwyd blasus (G, 25-34, Llanbedr Pont Steffan)*

*Safon ein gwaith, diwylliant a choginio Gwlad Pwyl (G, 25-34, Aberystwyth)*

*Rydym yn gweithio'n galed, mae ein bwyd yn flasus, diwylliant ac arferion (G, 35-44, Caerfyrddin)*

*Rydym yn sbarduno'r economi oherwydd y gwaith a wnawn ni yw'r gwaith nad yw'r bobl leol am ei wneud o gwbl. (M, 25-34, Aberystwyth)*

*Pobl sy'n gweithio'n galed, ac yn gwella'r economi (G, 25-34, Aberystwyth)*

*Datblygiad economaidd Cymru; mae Pwyliaid yn gweithio am lai o dâl na phobl leol sy'n arbed arian i gwmnïau a all ei fuddsoddi a datblygu. Bwyd a choginio Gwlad Pwyl (M, 25-34, Y Trallwng)*

*Rydym yn cynnig gwaith rhad a da, ac yn hybu arferion a diwylliant Gwlad Pwyl (G, 25-34, Hwlffordd)*

*Rydym yn cynnig safon dda o waith ac arbenigwyr (G, 45-54, Aberdaugleddau)*

*Gweithlu i wneud y gwaith y mae'r bobl leol yn rhy ddiog i'w wneud. (M, 25-34, Betws-y-coed)*

*Cawn ein trin fel gweithlu rhad. Rydym yn gwneud y gwaith na fuasai'r bobl leol yn ei wneud am yr arian hwn. (G, 25-34, Betws-y-coed)*

*Llafur rhad (M, 18-24, Betws-y-coed)*

*Economaidd - gwneud gwaith nad yw'r bobl leol eu heisiau (G, 18-24, Betws-y-coed)*

Ategwyd y canfyddiad fod gweithwyr mudol yn llenwi'r swyddi na fyn y bobl leol a'r farn fod eu llafur rhad o gymorth i'r economi leol i raddau gan gyfweliadau â'r sefydliadau cymorth ac eraill yn y sector, a mynegodd rhai bryder am ddiffyg gweithwyr yn y dyfodol yn sgil cyfyngiadau newydd ar weithwyr mudol o'r tu allan i'r UE ynghyd â'r arafu disgwyliedig ar fewnlifiad y gweithwyr mudol A8. At ei gilydd, amcangyfrifwyd gan y Swyddfa Gartref fod gweithwyr mudol yn y DU yn cyfrannu 10% yn fwy at gyllid na'r hyn a dderbyniant drwy fudd-daliadau (WLGA, 2007).

Fel y dengys rhai o'r dyfyniadau uchod, fodd bynnag, cred llawer o weithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru eu bod yn cyfrannu'n ddiwylliannol yn ogystal ag yn economaidd. Yn ogystal â chyflwyno bwydydd a choginio newydd, credant fod presenoldeb gweithwyr mudol o Ganol a Dwyrain Ewrop wedi bod o gymorth i hybu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ryngwladol:

*Newid ffordd o feddwl yn y genedl Brydeinig - peri i bobl sylweddoli nad nhw yw'r unig bobl yn y byd. (G, 25-34, Aberystwyth)*

*Diwylliant gwahanol. Bara o Slofacia (G, 25-34, Y Trallwng)*

*Rydym yn rhannu gwybodaeth am ein bywydau yn ein gwledydd (Y DU, Cymru, Gwlad Pwyl, Slofacia) (M, 18-24, Betws-y-coed)*

*Niferoedd mawr o Bwyliaid yn hybu bwydydd Pwylaidd mewn archfarchnadoedd, cwrw Pwylaidd mewn tafarnau, ac rwyf wedi clywed am arwyddion ffyrdd yn Saesneg a Phwyleg*

*lle mae poblogaeth fawr (M, 25-34, Betws-y-coed)*

Fodd bynnag, credai nifer fechan o atebwyr fod gweithwyr mudol wedi creu sgil-effeithiau drwg, gan gyfrannu at ddiweithdra lleol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol:

*Mwy o ddiweithdra ymhlith y brodorion, argraff wael (G, 25-34, Y Trallwng)*

*Mwy o werthu alocohol yng Nghymru (M, 25-34, Y Trallwng)*

*Ar y llaw arall, mwy o ymddygiad garw, diffyg parch - sy'n peri i bobl leol dybio eu bod i gyd yr un fath (M, 18-24, Betws-y-coed)*

## 6.3 Gwahanol Brofiadau'r Mewnfudwyr

Fel yr awgryma'r drafodaeth uchod, nid yw profiadau'r gweithwyr mudol o wledydd A8 yn unffurf yng nghefn gwlad Cymru ac ni ellir eu trafod fel un grwp unsut. Er bod gan fewnfudwyr wahanol resymau, anghenion a phrofiadau o fyw yng nghefn gwlad Cymru, gellir amlinellu tri grwp yn fras, fel yr awgrymir ym mhennod 3:

***'Myfyrwyr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd':*** Pobl ifainc sy'n cymryd swyddi dros dro yn y DU cyn astudio yn eu mamwlad neu yn ystod y cyfnod hwnnw neu yn union ar ôl hynny. Mae llawer yn bwriadu dychwelyd i'w mamwlad ymhen blwyddyn. Swyddi elfennol mewn diwydiannau fel lletygarwch ac arlwyo mewn ardaloedd fel Conwy, Gwynedd a rhannau o Geredigion a Phenfro, yn enwedig llefydd fel Betws-y-coed a Dinbych-y-pysgod, sydd gan y mewnfudwyr hyn yn bennaf. Mae eu rhesymau dros ddod i Gymru yn cynnwys yn gyffredinol gyfuniad o resymau gan gynnwys ennill arian, dysgu Saesneg ac antur. Mae natur eu gwaith yn golygu bod y grwp hwn o weithwyr mudol yn tueddu i dderbyn yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol ac yn aml maent yn gwetihio oriau hir a gallant fod yn agored i gamfantais. Mae llawer ohonynt yn byw mewn llety a ddarparwyd gan eu cyflogwr a chaiff didyniadau fel arfer eu tynnu o'u cyflog. Mae'r mwyafrif o'r grwp hwn yn medru siarad Saesneg yn eithaf da ond heb fod yn rhugl ac yn aml maent wedi dod i Gymru er mwyn gwella eu sgiliau ieithyddol.

***'Gweithwyr gwadd':***Gweithwyr sydd wedi mudo i'r DU yn bennaf er mwyn ennill arian ac sy'n dewis eu lle byw yn bennaf ar sail argaeledd gwaith. Mae llawer ohonynt wedi byw mewn un lle yn y DU, ac yn symud er mwyn achub ar gyfleon gwaith. At ei gilydd mae'n fwriad ganddynt ddychwelyd i'w mamwlad, ond disgwyliant fel arfer aros yn y DU am hyd at ychydig o flynyddoedd. Maent yn llai parod, fodd bynnag, i aros yn eu lleoliad presennol; mae llawer yn byw mewn llety a ddarparwyd gan eu cyflogwr a phrin yw eu cysylltiad â'r gymuned leol, ond mewn ambell weithle efallai y byddant yn cymdeithasu â'u cyd-weithwyr o Brydain. Dynion yw 'gweithwyr gwadd' fel arfer, ac mae llawer ohonynt wedi gadael partneriaid neu deulu gartref yn eu mamwlad. Er bod nifer o 'weithwyr gwadd' yn gyflogedig mewn swyddi isel eu tâl, mae rhai ohonynt â sgiliau technegol uwch yn gallu ennill cyflogau eithaf sylweddol. Mae llawer ohonynt yn danfon arian adref. Gweithio mewn gwaith prosesu neu drin peiriannau neu mewn swyddi elfennol yn y sectorau gweithgynhyrchu, prosesu bwyd, adeiladu ac amaethyddiaeth y bydd gweithwyr mudol yn y grwp hwn fel arfer. Maent yn byw yng nghefn gwlad Cymru mewn ardaloedd lle mae'r diwydiannau hyn yn amlwg, gan gynnwys o fewn ardaloedd yr astudiaethau achos hyn, Aberdaugleddau, Hwlffordd a Llanybydder yn ogystal â'r Trallwng i raddau llai. Prin yw'r sgiliau iaith Saesneg yn y grwp hwn o weithwyr mudol, ac ni fedrant siarad ond ychydig o eiriau neu frawddegau o Saesneg. Ni all lleiafrif bychan ohonynt siarad Saesneg o gwbl.

***'Gwladychwyr':*** Mewnfudwyr sy'n bwriadu aros ym Mhrydain am gyfnod hir, fel arfer yn eu lle byw presennol. Er bod rhesymau economaidd yn rhan o'r cymhelliad i fudo, mae ymuno â chyfeillion a theulu yn bwysig yn ogystal, ac mae llawer ohonynt wedi annog cyfeillion ac aelodau eraill o'r teulu i symud i Gymru. Roedd llawer o aelodau'r grwp hwn yn adnabod pobl yng Nghymru cyn symud, ac roedd ymuno â chyfeillion a theulu yn ystyriaeth bwysig wrth ddewis lle byw yng Nghymru, ynghyd â chyfleon am waith a dewis lle i fyw. Mae gan fewnfudwyr yn y grwp hwn amrywiaeth o swyddi mewn gwahanol ddiwydiannau, ond mae'n bosibl na lwyddasant i ddod o hyd i waith cymwys i'w hyfforddiant neu i'w cymwysterau. Byw mewn llety rhent preifat y mae'r gweithwyr yn y grwp hwn fel arfer, ac er bod y rhan fwyaf ohonynt o'r farn fod safon eu llety cystal neu'n well na'r hyn a

fu ganddynt yn eu mamwlad cafodd rhai drafferth wrth chwilio am lety addas. Gan aelodau'r grwp hwn yr oedd y sgiliau iaith Saesneg gorau o blith y tri grwp, ac roedd llawer ohonynt yn eu hystyried eu hunain yn rhugl.

Oherwydd bod cefndiroedd, bwriadau ac amodau gwaith y tri grwp hyn yn amrywio bu'r cyswllt rhyngddynt a'r gymuned leol a'u canfyddiadau a'u profiadau o fyw yng nghefn gwlad Cymru yn amrywiol yn ogystal. Mewnfudwyr yn y grwp 'gwladychu' hwn yw'r mwyaf cadarnhaol wrth gwrs am gymunedau lleol a bywyd yng nghefn gwlad Cymru, a cheir tuedd yn eu plith i gymathu fwyfwy â'r gymuned leol, er mai prin yw'r rhai a ddywed eu bod yn rhan o weithgareddau a grwpiau lleol. Fodd bynnag, mae 'gwladychwyr' yn fwy tebygol hefyd o ddioddef camwahaniaethu, sy'n dangos eu bod wedi byw yma'n hwyach ac wedi cael mwy o gyswllt â phobl leol, a theimla amryw ohonynt nad ydynt wedi magu'r ymdeimlad o gymuned â phobl eraill yn y fro.

Ar y llaw arall, eithaf prin yw'r cysylltiad cymdeithasol rhwng gweithwyr mudol sydd debycaf i 'fyfyrwyr sy'n cymryd blwyddyn i ffwrdd', sy'n deillio o natur eu swyddi a'u llety a'u cyfnodau cymharol fyr o fyw yma. Fodd bynnag, mae aelodau'r grwp yn rhanedig o ran eu canfyddiadau o fyw yng nghefn gwlad Cymru. Mae gan lawer ohonynt feddwl mawr o'u cymunedau lleol, yr amgylchedd naturiol a'r ffordd o fyw; ond ceir lleiafrif sylweddol yn y grwp hwn sy'n teimlo'n unig, ac sydd heb ddatblygu rhwydweithiau cymdeithasol a chyfeillgarwch ac sy'n anhapus ac wedi'u dadrithio. Yn yr achosion hyn gall fod oddi cartref am y tro cyntaf yn ifanc fod yn waeth mewn ardal wledig ac mewn cymuned fechan lle maent yn byw, a cheir llawer o'r rhain ym Metws-y-coed sy'n achwyn eu bod wedi syrffedu a bod diffyg adloniant yno.

Mae 'gweithwyr gwadd' yn grwp rhanedig hefyd o ran eu canfyddiadau o fyw yng nghefn gwlad Cymru. Gan fod 'gweithwyr gwadd' yn llai arhosol ac o bosibl yn byw yn llety'r cwmni, eithaf prin yw eu cysylltiadau â phobl leol, er y gallant gymdeithasu â chyd-weithwyr o Brydain mewn rhai achosion, a gallant fagu ymdeimlad o gymuned cryf â gweithwyr mudol eraill. Mae perygl mewn rhai cymunedau lle mae nifer o 'weithwyr gwadd' i densiynau godi ymhlith pobl leol, wrth i weithwyr mudol gael eu cyhuddo o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae llawer o weithwyr mudol a berthyn i'r grwp 'gweithwyr gwadd' yn gadarnhaol eu barn am fyw yng Nghymru, yn enwedig yr arian a delir a'r rhyddid y mae hynny yn ei gynnig. Fodd bynnag, ceir lleiafrif sylweddol eto yn y grwp hwn sy'n anniddig ac anhapus, yn enwedig y sawl sydd ar wahân oddi wrth eu teuluoedd.

Gan fod y gwahanol fathau o weithwyr mudol a ddisgrifir uchod yn cael eu denu i wahanol sectorau o waith, a chan fod y rhain yn amrywio'n ddaearyddol ar draws Cymru, ceir gwahaniaethau daearyddol ym mhrofiad a sefyllfa gweithwyr mudol mewn gwahanol rannau o gefn gwlad Cymru. Er enghraifft, yn yr ardaloedd a astudiwyd yn yr arolwg hwn ceir gwahaniaeth mawr rhwng Betws-y-coed/Llanrwst ac Aberdaugleddau/Hwlffordd lle y mae'r gweithwyr mudol yn llai arhosol ac yn gysylltiedig yn uniongyrchol â swyddi; a'r ardaloedd yn Sir Gaerfyrddin/Ceredigion a'r Trallwng, lle y tueddai'r gweithwyr mudol i fod yn fwy arhosol. Ceir gwahaniaethau hefyd rhwng y parau hyn. Ym Metws-y-coed/Llanrwst mae'r mwyafrif o'r gweithwyr mudol yn ifanc ac yn sengl ac yn gweithio mewn swyddi elfennol isel eu tâl. Yn Aberdaugleddau a Hwlffordd mae'r gweithiwr mudol fel arfer yn hyn ac yn ddyn ac mewn swydd ychydig bach yn well ei statws â gwell tâl ac amodau gwaith. Yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin mae poblogaeth y gweithwyr mudol yn fwy amrywiol o ran ei chefndiroedd a'i swyddi nag yn ardaloedd yr astudiaethau achos eraill, a cheir mwy o gytbwysedd rhwng dynion a menywod, ac mae lefel eu haddysg yn tueddu i fod yn uwch. Yn y Trallwng, bydd gan weithwyr mudol gymwysterau technegol neu alwedigaethol fel arfer, ac maent yn gweithio mewn swyddi mwy diwydiannol, yn aml o dan waeth amodau.

Mae deall y gwahaniaethau daearyddol hyn yn bwysig wrth ymateb yn briodol i anghenion y gweithlu mudol a'i gysylltiadau â'r gymuned leol mewn gwahanol rannau o gefn gwlad Cymru.

## 6.4 Cymorth i Weithwyr Mudol

Yn ein hastudiaeth gwmpasu flaenorol, dangoswyd bod cryn amrywio o ran y graddau yr oedd awdurdodau ac asiantaethau lleol yng nghefn gwlad Cymru yn mynd i'r afael â phynciau sy'n ymwneud â gweithwyr mudol (WRO, 2006).

Yn ystod y ddwy flynedd a fu yn y cyfamser rhoddwyd llawer mwy o sylw i weithwyr mudol gan ystod ehangach o sefydliadau. Sefydlwyd Grwp Gorchwyl a Gorffen gan Gyngor Sir Caerfyrddin, er enghraifft, a gyflwynodd adroddiad yn 2007 a rhestr hir o argymhellion i wella'r modd yr oedd yr awdurdod lleol yn ymwneud â'r boblogaeth sylweddol o weithwyr mudol yn y sir (Cyngor Sir Caerfyrddin, 2007). Mae asiantaethau a sefydliadau eraill, gan gynnwys heddluoedd, partneriaethau diogelwch cymunedol, byrddau iechyd lleol, undebau llafur a Chyngor ar Bopeth, wedi bod wrthi'n ddyfal yn datblygu strategaethau ac yn rhoi mentrau ar waith i gwrdd â gofynion gweithwyr mudol. Fodd bynnag, dengys ein harolwg mai prin yw'r dystiolaeth sy'n dangos bod gweithwyr mudol yn defnyddio'r gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael hyd yma. Ni ddywedodd ond un o bob saith gweithiwr mudol yn yr arolwg eu bod wedi ceisio cael cyngor oddi wrth sefydliad ers symud i Gymru, gan gynnwys CAB a Chyllid y Wlad, ac ni ddywedodd ond un o bob ugain eu bod wedi gwneud cais penodol i gael cyngor ar lety, er gwaethaf y ganran lawer uwch o bobl a ddywedodd eu bod wedi cael trafferth â'u llety.

Ar sail y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn, gellir enwi pum maes i ganolbwyntio arnynt wrth gynorthwyo gweithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru, gan adeiladu ar fentrau cyfredol a modelau arferion gorau.

Yn gyntaf, mae angen gwella'r wybodaeth a gynigir i weithwyr mudol wrth gyrraedd Cymru. Ni ddywedodd ond 41% o'r gweithwyr mudol yn yr arolwg eu bod wedi derbyn gwybodaeth am fyw a gweithio yng Nghymru wrth gyrraedd, er bod 74% ohonynt wedi dweud y byddai gwybodaeth o'r fath wedi bod yn ddefnyddiol. Ni ddywedodd ond 27% ohonynt eu bod wedi derbyn gwybodaeth am gyfreithiau lleol. Cyfraniad mawr at wella'r wybodaeth a gynigir i newydd-ddyfodiaid yw'r Pecyn Croeso i Gymru i Weithwyr Mudol a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol. Ond mae anawsterau ymarferol wrth ei ddosbarthu ymhlith gweithwyr mudol, yn enwedig mewn gweithleoedd mewn cymunedau gwledig bychain.

Yn ail, nodwyd droeon mai iaith fu'r maen tramgwydd mawr a rwystrai'r gweithwyr mudol rhag ymdoddi i'r gymuned leol, cael mynediad i wasanaethau cyhoeddus a dod i wybod am eu hawliau gwaith a thai. Er bod dosbarthiadau iaith ar gael, a hynny'n aml trwy gymorth cyflogwyr, dywed llawer o awdurdodau lleol fod gwasanaethau Saesneg fel Iaith Ychwanegol o dan bwysau cynyddol oherwydd prinder athrawon a chyllid annigonol. Mae angen cynnig rhagor o gefnogaeth a chyfleon i weithwyr mudol ym mhob rhan o gefn gwlad Cymru. Mae angen cynnig cyfleon i ddysgu'r Gymraeg i weithwyr mudol er mwyn hwyluso eu cymathiad mewn ardaloedd lle mae llawer o Gymraeg.

Yn drydydd, er iddi ymddangos bod amodau gwaith a thai at ei gilydd yn rhesymol i weithwyr mudol yng nghefn gwlad Cymru, fe geir tystiolaeth fod ambell achos o gamfanteisio yn digwydd ac mae angen sicrhau eu hawliau cyfreithiol. Mae angen prosiectau eiriolaeth i addysgu gweithwyr mudol am eu hawliau a'u cynorthwyo wrth gynrychioli eu buddiannau gan ddilyn, er enghraifft, waith Siawns Teg, sef menter ym Mhowys.

Yn bedwerydd, prif gyfraniad gweithwyr mudol i economi cefn gwlad Cymru ar hyn o bryd yw llafur rhad. Gan fod gan y mwyafrif o'r gweithwyr mudol o wledydd A8 raddau prifysgol neu gymwysterau galwedigaethol, mae modd dadlau bod eu defnyddio mewn swyddi trin prosesau isel eu statws ac elfennol yn ddefnydd aneffeithlon o adnoddau llafur. Dylid ystyried sut y gellid defnyddio eu sgiliau proffesiynol a thechnegol a gwireddu eu haddewid entrepreneuraidd, yn enwedig ymhlith y sawl sy'n bwriadu aros yng nghefn gwlad Cymru am gyfnod hir, yn ogystal ag achub ar y cyfle i feithrin cysylltiadau newydd â Chanol a Dwyrain Ewrop ar gyfer allforion a'r diwydiant ymwelwyr, fel rhan o strategaethau datblygu economaidd yng nghefn gwlad Cymru.

Yn bumed, mae angen rhoi sylw i sut mae hwyluso'r ffordd i weithwyr mudol ymdoddi i gymunedau lleol a gwella cydlynedd cymunedau. Mae angen i hyn fod yn agored i amgylchiadau a gofynion arbennig ardaloedd penodol ac i'r gweithwyr mudol sy'n byw ynddynt. Mae'n bosibl y bydd datblygu cymunedau cydlynus a chymathu pobl yn gofyn, er enghraifft, am fentrau addysgol ar gyfer gweithwyr mudol a thrigolion lleol, yn ogystal â hybu cyfleon i fewnfudwyr a phobl leol gwrdd ac ymwneud â'i gilydd. Mae'n bosibl y bydd gan yr Eglwys Gatholig ran i'w chwarae yn hyn o beth mewn rhai cymunedau, yn ogystal â phrif gyflogwyr y gweithlu mudol.

Nid yw'r blaenoriaethau a'r heriau hyn o reidrwydd yn unigryw i gefn gwlad Cymru, ond mae cyd-destun gwledig yr ardal lle mae gweithwyr mudol yn wasgaredig mewn cymunedau bychain, a natur amrywiol y gweithlu mudol yn yr ardal a'r amrywiaeth daearyddol, yn gofyn am sylw arbennig ac am ddatblygu mentrau priodol a phenodol yn unswydd.

## CYFEIRIADAU

Yr Asiantaeth Ffiniau a Mewnfudo (2007) *Accession Monitoring Report, A8 Countries: May 2004 – March 2007*. London: Border and Immigration Agency.

Cyngor Sir Caerfyrddin (2007) *Migrant Workers in Carmarthenshire*. Pwyllgor Craffu Cyfiawnder Cymdeithasol, Grwp Gorchwyl a Gorffen 2006/7. Caerfyrddin: Cyngor Sir Caerfyrddin.

Cloke, P., Goodwin, M. a Milbourne, P. (1997) *Rural Wales: Community and Marginalization*. Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru.

Commission for Rural Communities [CRC] (2007) *A8 Migrant Workers in Rural Areas*. Cheltenham: CRC.

Heddlu Dyfed-Powys (2006) *A Systematic Approach to the Records of Migrant Workers within the Dyfed-Powys Police Force Area*. Hwlffordd: Heddlu Dyfed Powys.

Halfacree, K. (1995) Talking about rurality: social representations of the rural as expressed by residents of six English parishes, *Journal of Rural Studies*, 11, 1-20.

Swyddfa'r Ystadegau Gwladol [ONS] (2000) *Standard Occupational Classification 2000*. Volume 1: Structure and descriptions of unit groups. London: The Stationery Office.

Spencer, S., Ruhs, M., Anderson, B. a Rogaly, B. (2007) *Migrants' Lives Beyond the Workplace: The experiences of Central and East Europeans in the UK*. York: Joseph Rowntree Foundation.

Turunen, S., Holmes, M., Ralvik, E., Trimm, L. a Tanveer, T. (2005) *Workers from Outside the UK in the Conwy Local Authority Area*. Penmaenmawr: North Wales Race Equality Network.

Arsyllfa Wledig Cymru [WRO] (2006) *Astudiaeth Gwmpasu ar Weithwyr Mudol o Ddwyrain a Chanol Ewrop yn y Gymru Wledig*. Aberystwyth a Chaerdydd: Arsyllfa Wledig Cymru.

Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol [WAG] (2007) *Ystadegau ar Weithwyr Mudol yng Nghymru*. Erthygl Ystadegol Caerdydd: Llywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol

Cyngor Defnyddwyr Cymru [WCC] (2007) *Migrant Workers and Access to Public Services*. Papur Briffio. Caerdydd: Cyngor Defnyddwyr Cymru.

Winckler, V. (2007) *One Workforce – Migrant Workers in Wales: a Trade Union Report*. Report for the Wales TUC, Thompsons Solictors, Unison, Unite and GMB. Caerdydd: TUC Cymru.

WLGA (2007) *Migrant Workers in Wales: Local Authority Experiences*. Arolwg WLGA, Chwefror 2007. Caerdydd: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

## ATODIAD 1: CANFYDDIADAU GWEITHWYR MUDOL O FYW YNG NGHYMRU WLEDIG

**Beth ydych chi'n ei hoffi am fywyd yng nghefn gwlad Cymru?**

*Mae pobl yn gyfeillgar ac mae gwên ar eu hwynebau. Mae'r safon byw yn well. (G, 25-34, Llanbedr Pont Steffan)*
*Digon o waith ar gael, a phobl gyfeillgar (G, 25-34, Aberystwyth)*
*Mae gen i swydd a gallaf fforddio beth sydd ei angen; mae'r safon byw yn destun llawenydd imi (G, 35-44, Caerfyrddin)*
*Mae pobl bob amser yn gyfeillgar ac mae gen i swydd, mae hynny'n bwysig imi (M, 25-34, Caerfyrddin)*
*Does dim arbennig am fy swydd ond mae'r cyflog yn ddigon da i brynu car inni gael bod yn annibynnol (M, 25-34, Aberystwyth)*
*Mae swydd ar gael os ydych chi am weithio (G, 25-34, Aberystwyth)*
*Mae pobl yn fwy goddefgar. Mae'r arian yn well nag y mae yn Slofenia (M, 25-34, Y Borth)*
*Pobl gyfeillgar, digon o gymorth oddi wrth bobl y cyfarfuom ni â nhw. Bu llywodraeth y DU o gymorth i'r teulu ac i'r plant (G, 25-34, Aberystwyth)*
*Lle neis a phrydferth, tawel braf, pobl gyfeillgar (G, 25-34, Aberystwyth)*

*Mae pobl leol yn neis, rwy'n hoffi pensaerniaeth a'r amgylchedd naturiol yng Nghymru (G, 45-54, Y Trallwng)*
*Dim byd (G, 25-34, Y Trallwng)*
*Tawelwch a chefn gwlad (G, 25-34, Y Trallwng)*
*Mae bywyd yma yn ymddangos yn dipyn haws (G, 18-24, Y Trallwng)*
*Ymddengys fod bywyd yng Nghymru yn dawelach ac â llai o bwysau (M, 25-34, Y Trallwng)*
*Rwy'n hoffi'r ffordd o fyw (M, 18-24, Y Trallwng)*
*Yn dawel braf; a phobl Prydain (M, 45-54, Y Trallwng)*

*Mae llawer o gyfleon i newid lle'r ydych yn byw a gweithio (G, 25-34, Hwlffordd)*
*Mae pobl yma'n gyfeillgar a bob amser yn ceisio helpu (M, 18-24, Aberdaugleddau)*
*Diffyg pwysau (G, 45-45, Aberdaugleddau)*
*Dim byd!!! (G, 45-54, Aberdaugleddau)*
*Dim pwysau, dim byd i boeni yn ei gylch, amser sbri ddydd Gwener a dydd Sadwrn (G, 35-44, Aberdaugleddau)*

*Tawelwch a ffordd o fyw hawdd (G, 25-34, Betws-y-coed)*
*Mae gan bobl arian ac mae hynny'n eu caniatau i fyw bywyd heb bwysau. Dim problem i ddod o hyd i waith. (M, 18-25, Betws-y-coed)*
*Rwy'n hoff o'r ffordd o fyw dawel; tirlun prydferth o gwmpas Betws-y-coed, mynyddoedd Cymru (M, 25-34, Betws-y-coed)*
*Dim (G, 25-34, Llanrwst)*
*Dim pwysau (G, 25-34, Llanrwst)*
*Dim (G, 25-34, Llanrwst)*
*Arian (G, 18-24, Llanrwst)*
*Dim byd (G, 25-34, Betws-y-coed)*
*Perthynas dda a chyfeillgar â Phwyliaid (G, 18-24, Betws-y-coed)*
*Perthynas dda a chyfeillgar â Phwyliaid, agwedd dda (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Dim byd (G, 18-24, Betws-y-coed)*
*Digon o amser hamdden (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Rwy'n hoffi'r ffaith fod pobl hyn yn mynd i'r dafarn i'w mwynhau eu hunain (G, 18-24, Betws-y-coed)*
*Pobl braf, tirlun braf, safon byw dda (G, 18-24, Betws-y-coed)*
*Byd natur neis, mae'n lle tawel a gallaf arbed llwyth o arian yma (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Goddefgarwch, dim brys ar neb (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Goddefgarwch (G, 25-34, Betws-y-coed)*

**Beth nad ydych chi'n ei hoffi am fywyd yng nghefn gwlad Cymru?**

*CCTV ym mhob man!!! Does gan bobl ddim croeso fel y Pwyliaid, ac nid ydynt yn agored iddo ychwaith; maent bob amser yn amheus (G, 25-34, Ceredigion)*
*Mae pethau'n arwynebol, mae'r menywod yn edrych yn wael a dydyn nhw ddim yn eu parchu eu hunain (M, 25-34, Aberystwyth)*
*Diwylliant personol, pobl o Brydain (G, 25-34, Aberystwyth)*
*Does neb ein heisiau ni yma fel cenedl; dyw pobl ddimb yn ein derbyn ni, ac maen nhw'n gwneud inni deimlo fel dieithriaid (G, 35-44, Caerfyrddin)*
*Does dim digon o wybodaeth am ddiwylliant ac arferion Gwlad Pwyl ar gael i bobl leol (M, 25-34, Caerfyrddin)*

*Cenedl feddw (M, 25-34, Aberystwyth)*
*Mae costau llety a byw yn uchel iawn (G, 25-34, Aberystwyth)*
*Tywydd Nid yw'r bara o safon dda. (M, 25-34, Y Borth)*
*Rhent uchel iawn a chostau llety. Mae'r tywydd yn wael (G, 25-34, Aberystwyth)*
*Mae pobl yn yfed gormod o alcohol (G, 25-34, Aberystwyth)*

*Gall nos Wener a nos Sadwrn fod yn swnllyd iawn weithiau, a cheir ymladd hyd yn oed rhwng pobl leol a rhai mewnfudwyr (ofn pobl o Wlad Pwyl). Gall fod yn beryglus fod ar y stryd. (G, 45-54, Y Trallwng)*
*Popeth (G, 25-34, Y Trallwng)*
*Ffordd o feddwl pobl (G, 25-34, Y Trallwng)*
*Gormod o Bwyliaid (G, 18-24, Y Trallwng)*
*Nifer go fawr o Bwyliaid sydd wedi gadael Gwlad Pwyl oherwydd eu trafferthion â'r gyfraith yno (M, 25-34, Y Trallwng)*
*Rhai pobl o darddiad Pwylaidd, weithiau oherwydd eu bod wedi goryfed ac yn ymladd gan greu helynt (M, 18-24, Y Trallwng)*
*Mae pobl Prydain weithiau'n wladaidd - diwylliant, glendid personol ac ymddygiad wrth y ford (G, 18-24, Y Trallwng)*

*Y ffordd y mae pobl leol yn meddwl, arferion, ffordd o feddwl pobl (G, 25-34, Hwlffordd)*
*Mae pobl ifainc yn anghwrtais a chwrs (M, 18-24, Aberdaugleddau)*
*Mae pawb mor gyffyrddus yma (does dim rheolau pendant) (G, 45-54, Aberdaugleddau)*
*Diffyg disgyblaeth (G, 25-34, Aberdaugleddau)*

*Ymddengys nad oes gan bobl ifainc ddim oll i'w wneud ond lolian ar y strydoedd (G, 25-34, Betws-y-coed)*
*Treulir eu holl amser hamdden mewn tafarnau gan rai pobl - dim bywyyd teuluol (M, 18-25, Betws-y-coed)*
*Mae pobl mor gwrtais fel nad ydynt yn aml yn dangos eu gwir deimladau oherwydd byddai hynny'n beth anghwrtais i'w wneud. (M, 25-34, Betws-y-coed)*
*Oer a gwlyb (G, 25-34, Llanrwst)*
*Oer a glaw cyson (G, 25-34, Llanrwst)*
*Byw o ddydd i ddydd (G, 25-34, Llanrwst)*
*Ffordd o feddwl pobl (G, 25-34, Betws-y-coed)*
*Popeth (G, 18-24, Betws-y-coed)*
*Diflastod (G, 18-24, Betws-y-coed)*
*Gormod o yfed alcohol, diffyg diwylliant personol - yn enwedig mewn perthynas â thramorwyr (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Rhy dawel (G, 18-24, Betws-y-coed)*
*Dydw i ddim yn hoffi'r mwg mewn tafarnau, na'r tywydd (G, 18-24, Betws-y-coed)*
*Trafnidiaeth bysiau yn ofnadwy, dim siopau, dim bywyd (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Diffyg adloniant o unrhyw fath (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Diflastod, dim clwb, dim clybiau nos, na disgos i'w mynychu (G, 25-34, Betws-y-coed)*

**Beth yn eich barn yw yw prif gyfraniadau pobl o'ch gwlad chi i wella bywyd yma yng Nghymru?**

*Pobl sy'n gweithio'n galed, nad yw'n poeni gormod am y math o swydd, rydym yn agored i bobl eraill ac yn gwrtais, ac yn coginio bwyd blasus (G, 25-34, Llanbedr Pont Steffan)*
*Safon ein gwaith, diwylliant a choginio Gwlad Pwyl (G, 25-34, Aberystwyth)*
*Rydym yn gweithio'n galed, mae ein bwyd yn flasus, diwylliant ac arferion (G, 35-44, Caerfyrddin)*
*Ymddygiad a'n pryd a gwedd ni. Rydym yn sbarduno'r economi oherwydd y gwaith a wnawn ni yw'r gwaith nad yw'r bobl leol am ei wneud o gwbl. (M, 25-34, Aberystwyth)*
*Pobl sy'n gweithio'n galed, gwella'r economi, newid ffordd o feddwl yn y genedl Brydeinig - peri i bobl sylweddoli nad nhw yw'r unig bobl yn y byd. (G, 25-34, Aberystwyth)*
*Amrywiaeth ein diwylliant a'n harferion. Rydym yn cefnogi'r economi drwy wneud gwaith na fyn pobl Prydain ei wneud (G, 25-34, Aberystwyth)*

*Diwylliant gwahanol Bara o Slofacia (G, 25-34, Y Trallwng)*
*Datlygu economi Cymru; mae Pwyliaid yn gweithio am lai o arian na'r bobl leol sy'n arbed arian i gwmniau a all wedyn ei fuddsoddi a datblygu. Bwyd a choginio Gwlad Pwyl (M, 25-34, Y Trallwng)*
*Mwy o ddiweithdra ymhlith y brodorion, argraff wael (G, 25-34, Y Trallwng)*
*Mwy o werthu alocohol yng Nghymru (M, 25-34, Y Trallwng)*

*Rydym yn cynnig gwaith rhad a da, ac yn hybu arferion a diwylliant Gwlad Pwyl (G, 25-34, Hwlfforddd)*
*Ein diwylliant, arferion ymolchi (mae siaradwyr Saesneg yn frwnt iawn) (G, 45-54, Aberdaugleddau)*
*Rydym yn cynnig safon dda o waith ac arbenigwyr (G, 45-54, Aberdaugleddau)*

*Rydym yn rhannu gwybodaeth am ein bywydau yn ein gwledydd (Y DU, Cymru, Gwlad Pwyl, Slofacia) (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Gweithlu i wneud y gwaith y mae'r bobl leol yn rhy ddiog i'w wneud. Niferoedd mawr o Bwyliaid yn hybu bwydydd Pwylaidd mewn archfarchnadoedd, cwrw Pwylaidd mewn tafarnau, ac rwyf wedi clywed am arwyddion ffyrdd yn Saesneg a Phwyleg lle mae poblogaeth fawr (M, 25-34, Betws-y-coed)*
*Cawn ein trin fel gweithlu rhad. Rydym yn gwneud y gwaith na fuasai'r bobl leol yn ei wneud am yr arian hwn. Menywod o Wlad Pwyl yw'r prydferthaf (rhywbeth i fod yn falch ohono) (G, 25-34, Betws-y-coed)*
*Ein profiad a'n arfer o weithio'n galed. Ar y llaw arall, mwy o ymddygiad garw, diffyg parch - sy'n peri i bobl leol dybio eu bod i gyd yr un peth (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Ffordd o fyw newydd, ymddygiad. Dysgu gonestrwydd a gwaith caled i bobl leol (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Gweithlu rhad (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Llafur rhatach (G, 25-34, Betws-y-coed)*
*Llafur rhad (M, 18-24, Betws-y-coed)*
*Economaidd - gwneud gwaith nad yw'r bobl leol eu heisiau (G, 18-24, Betws-y-coed)*